chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow
cyfnod sylfaen 3–7 foundation phase



# Chwarae/Dysgu Gweithredol

## Trosolwg ar gyfer plant 3 i 7 oed







**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Chwarae/Dysgu Gweithredol

## Trosolwg ar gyfer plant 3 i 7 oed

**Cynulleidfa**

Penaethiaid, athrawon, ymarferwyr, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a phwyllgorau rheoli yn y sector nas cynhelir yng Nghymru; awdurdodau addysg lleol; undebau athrawon a chyrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg**

Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi'r *Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Mae'n darparu trosolwg o bwysigrwydd chwarae/dysgu gweithredol addysgol strwythuredig.

**Rhagor o wybodaeth**


Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu 3–14
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Llawr 10, Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 0800 083 6003
Ffacs: 029 2037 5496
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk


**Copïau ychwanegol**


Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 029 2037 5427
Ffacs: 029 2037 5494
Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk



Cyf: AC/GM/0838
ISBN: 978 0 7504 4547 4
Ionawr
A-EAC-02-01-040/AB



© Hawlfraint y Goron 2008

# Cynnwys


**Cefndir** 3

**Cyflwyniad** 5

**Gwerth chwarae/dysgu gweithredol yn y cwricwlwm** 7

Astudiaeth achos darluniadol: Datblygu lle yn yr awyr agored
Astudiaeth achos darluniadol: Dydd a nos – Y sach sgleiniog

**Cyfnodau datblygiadol mewn chwarae** 13

Ar eu pennau eu hunain 14
Astudiaeth achos darluniadol: Chwarae gyda'r garej

Gwylio 15
Astudiaeth achos darluniadol: Adeiladu injan dân
Astudiaeth achos: Stori rhif 10

Paralel 17
Astudiaeth achos: Y cwch a'r arth

Partneriaeth/cysylltiadol 18
Astudiaeth achos darluniadol: Lindysyn wedi'i wneud o deiars

Cydweithredol/grŵp 19
Astudiaeth achos darluniadol: Sfferau mewn bwced
Astudiaeth achos: Y banc

**Gwahanol fathau o leoedd a gweithgareddau chwarae/dysgu gweithredol** 24

Dychmygol/smalio 24
Astudiaeth achos: Lle llwyfan
Astudiaeth achos: Y ddamwain ar y groesfan sebra

Byd bach 27
Astudiaeth achos darluniadol: Y gwartheg yn y cae

Adeiladu 29
Astudiaeth achos: Adeiladu castell

Chwarae â defnyddiau naturiol 31
Astudiaeth achos: Y macaw yn y goedwig law

Creadigol 34
Astudiaeth achos darluniadol: Cerddoriaeth yn yr awyr agored

Corfforol 36
Astudiaeth achos darluniadol: Siapiau lliw

**Rôl yr ymarferwr yn chwarae'r plant** **39**

**Trefnu'r amgylchedd dysgu** **40**
Astudiaeth achos: Ffyn chwarae

**Cynllunio chwarae yn y Cyfnod Sylfaen** **43**
Astudiaeth achos: Cestyll, marchogion a thywysogesau

**Cynllunio ar gyfer dilyniant** **46**
Cynllunio ar gyfer cynnwys chwarae corfforol yn y thema wythnosol 'Pethau byw' 46

Cynllunio ar gyfer Datblygiad Corfforol 48

**Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol** **50**

**Geirfa'r Cyfnod Sylfaen** **52**

**Cydnabyddiaethau** **58**

# Cefndir



Roedd y cynigion yn nogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru *Y Wlad sy'n Dysgu: Y Cyfnod Sylfaen 3–7 oed* yn cynnwys datblygu cwricwlwm a oedd yn cryfhau ac yn cysylltu'r egwyddorion a'r arfer yn nogfen ACCAC *Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol* (2000) â'r rhaglenni astudio a'r datganiadau ffocws yng Nghyfnod Allweddol 1 y cwricwlwm cenedlaethol, a hynny er mwyn creu cwricwlwm cyfoethog dan saith Maes Dysgu i blant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn dadlau o blaid meithrin a hybu cysylltiadau cadarnhaol rhwng y cartref a darparwyr gofal ac addysg.

Mae ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru at addysg a dysgu gydol oes wedi'i nodi yng nghyd-destun ehangach ein gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn gyffredinol.

Mae gennym saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Y nodau hyn fydd yn sail i holl weithgareddau APADGOS.

Rydym yn anelu at sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

- yn cael dechrau da, ynghyd â'r seiliau gorau posibl ar gyfer tyfu a datblygu yn y dyfodol
- yn cael cyfle i fanteisio ar amrywiaeth eang o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys cyfleoedd i feithrin sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol
- yn cael mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan sicrhau hefyd nad ydynt yn cael eu cam-drin na'u herlid ac nad oes unrhyw un yn camfanteisio arnynt
- yn cael manteisio ar amrediad o weithgareddau chwarae, gweithgareddau hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol
- yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod

- yn cael cartref diogel a chymuned sy’n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol
- heb fod o dan anfantais o ganlyniad i unrhyw fath o dlodi.

Mae’r canllawiau hyn yn ategu’r ddogfen *Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Yn fwy penodol, fel dogfen unigol, mae’n darparu trosolwg o bwysigrwydd chwarae/dysgu gweithredol addysgol strwythuredig, ynghyd â gwahanol gyfnodau datblygu a sgiliau y gall plant ifanc eu caffael.

Dylai chwarae/dysgu gweithredol fod yn rhan hanfodol o gwricwlwm y plant. Dylai’r dull hwn fod yn un o hawliau’r holl blant 3 i 7 oed yn y Cyfnod Sylfaen.

# Cyflwyniad

**Mae chwarae yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm a ddylai fod yn llawn hwyl ac yn ysgogol.**

Mae'n bwysig cydnabod ac egluro gwerth chwarae yn nysgu plant ifanc. Mae'n hanfodol bod nodau eglur ar gyfer dysgu plant ifanc wrth chwarae gan ei bod hi'n hawdd iawn dehongli 'chwarae' fel rhywbeth dibwys a dibwrpas. Er mwyn i chwarae fod yn effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen, mae'n hanfodol cynllunio'n ofalus. Pan fyddwn yn trafod chwarae, byddwn yn cyfeirio at blant yn cael rhan weithredol yn eu dysgu. Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar chwarae addysgol strwythuredig.

Mae chwarae yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm a ddylai fod yn llawn hwyl ac yn ysgogol. Mae chwarae sydd wedi'i gynllunio'n dda yn helpu plant i feddwl a gwneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas. Mae'n datblygu ac yn estyn eu sgiliau ieithyddol a chyfathrebu, mae'n eu galluogi i fod yn greadigol, i ymchwilio ac archwilio gwahanol ddefnyddiau ac mae'n rhoi cyfleoedd iddyn nhw arbrofi a rhagfynegi deilliannau.

Dylai plant gael cyfle i ddilyn trywydd eu diddordebau a'u syniadau eu hunain trwy chwarae rhydd. Mae dysgu plant yn fwyaf effeithiol pan fydd yn codi o'u profiadau nhw eu hunain, boed rheiny'n rhai digymell neu'n rhai strwythuredig a phan roddir amser iddyn nhw chwarae heb dorri ar eu traws nes cyrraedd diweddglo boddhaol.



Mae syniadau Adroddiad Rumbold (1990) ar chwarae yn parhau yn wir heddiw. Datganodd: 'Mae chwarae sydd wedi'i gynllunio'n dda ac sy'n bleserus yn helpu plant i feddwl, i gynyddu eu dealltwriaeth ac i wella'u cymhwysedd ieithyddol. Mae'n galluogi plant i fod yn greadigol, i archwilio ac ymchwilio i ddefnyddiau, i arbrofi a llunio casgliadau a'u profi... Mae profiad o'r fath yn bwysig o ran dal a chadw diddordebau plant, a chymell eu dysgu fel unigolion ac mewn cydweithrediad ag eraill.'

Mae llawer o ddamcaniaethwyr a seicolegwyr addysgol wedi astudio chwarae plant a'i bwysigrwydd i'w datblygiad. Mae ymchwilwyr a seicolegwyr wedi ysgrifennu am werth chwarae ac wedi dyfeisio gwahanol gyfnodau chwarae a datblygu y bydd plant yn mynd

trwyddyn nhw. Mae pob un ohonyn nhw'n dod i'r casgliad bod chwarae'n hanfodol i ddatblygiad plant. Mae ymchwil a dogfennau diweddar yn parhau i gefnogi casgliadau damcaniaethwyr a seicolegwyr addysgol y gorffennol.

Mae'r ddogfen *Starting with Quality* (DES, 1990) yn datgan ynghylch dulliau ar gyfer dysgu:

> 89. Bydd plant ifanc yn dysgu'n effeithiol mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys archwilio, arsylwi a gwrando. I blant ifanc, chwarae a siarad yw'r ddau brif fodd o ddwyn ynghyd amrywiaeth o'r gweithgareddau hyn. Rydym yn credu fod gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol yn gofyn am sylw gofalus i ddarparu'n llawn ar gyfer y rhain.
>
> 90. Mae chwarae wrth wraidd llawer y mae plant ifanc yn ei ddysgu. Er mwyn gwireddu ei werth posibl, rhaid cyflawni nifer o amodau:
>
> a. oedolion yn chwarae rhan ac yn ymyrryd mewn modd sensitif, gwybodus a deallus
>
> b. cynllunio a threfnu'r lleoliadau chwarae yn ofalus er mwyn darparu ar gyfer dysgu a'i ehangu
>
> c. digon o amser i blant ddatblygu eu chwarae
>
> ch. arsylwi gweithgareddau plant yn ofalus er mwyn hwyluso asesu a chynllunio ar gyfer dilyniant a pharhad.

# Gwerth chwarae/dysgu gweithredol yn y cwricwlwm

Mae llawer wedi cael ei ysgrifennu am 'chwarae' ac mae'n bosibl ystyried ar gam yn aml mai'r gwrthwyneb i waith yw chwarae. Nid yw hyn yn wir yn achos chwarae addysgol strwythuredig o fewn y Cyfnod Sylfaen. Bydd plant ifanc yn dysgu drwy amrywiaeth o ffyrdd, ond profiadau'r plant ifanc eu hunain yw'r mwyaf effeithiol.

Ni ellir pwysleisio ddigon gwerth chwarae/dysgu gweithredol. Pan fydd plant yn cael rhan yn eu dysgu eu hunain, byddan nhw'n arddel perchenogaeth arno. Diben chwarae/dysgu gweithredol yw:



- cymell
- ysgogi
- cefnogi
- datblygu sgiliau
- datblygu cysyniadau
- datblygu sgiliau iaith/cyfathrebu
- datblygu'r gallu i ganolbwyntio
- datblygu agweddau positif
- dangos ymwybyddiaeth/defnyddio dysgu a sgiliau diweddar
- cyfnerthu dysgu.

**Mae chwarae addysgol gweithredol yn cefnogi dysgu plant ar draws yr holl Feysydd Dysgu.**

Dylid cynllunio a strwythuro'r cwricwlwm a'r amgylchedd i alluogi plant i fod yn ddysgwyr gweithredol. Dylai plant gael cyfleoedd i archwilio'u hamgylchedd dysgu a dysgu sgiliau newydd yn ogystal ag ailadrodd, ymarfer a mireinio sgiliau maen nhw eisoes wedi'u caffael. Mae'n bwysig bod gan blant ddigon o gyfleoedd i arbrofi ag adnoddau, i geisio datrys problemau yn ogystal â dewis eu defnyddiau eu hunain ar gyfer gweithgaredd.

Dylai chwarae gael ei werthfawrogi gan bob ymarferwr a'i strwythuro â nodau clir ar gyfer dysgu'r plant. Dylid ei strwythuro yn y fath fodd fel bod plant yn cael cyfleoedd i ymwneud â ffocws, cynllunio a sefydlu lleoedd chwarae dan do ac yn yr awyr agored, gan y bydd hyn yn rhoi perchenogaeth iddyn nhw ar eu dysgu.

Mae chwarae addysgol gweithredol yn cefnogi dysgu plant ar draws yr holl Feysydd Dysgu. Mae gwerth datblygiadol mawr i'r dull hwn i blant ifanc gan na fydd eu dysgu'n cael ei ddatblygu mewn rhaniadau gwahanol. Mae angen i blant gael cyfleoedd i ryngweithio â'u cyfoedion, yr ymarferwyr sy'n eu cefnogi a'u hamgylchedd.

Mae'n bwysig nad yw plant yn cael eu cyflwyno i ddulliau ffurfiol o ddysgu yn rhy fuan, gan y gall hyn gael effaith andwyol ar eu dysgu a'u datblygiad yn y dyfodol.



**Mae'r astudiaeth achos hon yn esbonio sut yr oedd grŵp o blant mewn cylch chwarae wedi newid iard gaeëdig fach yn lle dysgu yn yr awyr agored.**



## Datblygu lle yn yr awyr agored

Mae iard gaeëdig fach gennym gydag arwyneb meddal amddiffynnol. Roedden ni eisiau datblygu'r lle hwn yn lle dysgu yn yr awyr agored (h.y. ystafell ddosbarth yn yr awyr agored). Penderfynwyd y bydden ni'n defnyddio syniadau'r plant fel y prif ffocws ar gyfer datblygu'r lle hwn. Er mwyn sicrhau llwyddiant y prosiect roedden ni'n deall y byddai'n brosiect tymor hir a bod cyfraniad y plant yn hanfodol.

Ein gweithgaredd cyntaf oedd ystyried gyda'r plant y cyfleusterau awyr agored a oedd gennym eisoes. Roedd y plant wedi tynnu lluniau o'r ardd, y blodau, y gasibo, y llwybr cerrig, y sleid a'r trampolîn i'w hatgoffa o sut yr oedd yr iard yn edrych ar ddechrau'r prosiect.

Yna gofynnodd i'r plant beth yr hoffen nhw ei weld a'i wneud yn yr iard. Ymhlith yr awgrymiadau a gawsom roedd adar, awyren, tŷ bach twt, mafon a llawer o flodau. Cofnodwyd syniadau'r plant mewn llyfr gan gynnwys dyfyniadau a lluniau (wedi'u tynnu gan y plant) i atgoffa ni, a nhw, am eu syniadau.

Aethon nhw â'r plant allan sawl gwaith mewn tywydd sych a gwlyb a'u hannog i feddwl am weithgareddau a sut y gallen nhw weithio. Ar ôl llawer o drafod a chyffro penderfynwyd y byddem yn rhannu'r iard yn wahanol lefydd dysgu ac yn datblygu un lle ar y tro.

Y lle cyntaf i'w ddatblygu oedd y sied, a gafodd ei newid o le storio i le chwarae rôl (er enghraifft, caffi, tŷ, ac ati). Mae'r offer awyr agored bach a arferai gael eu storio yn y sied (er enghraifft, bagiau ffa, peli, coetennau, ac ati) yn cael eu storio mewn biniau du, mawr bellach ac wedi'u labelu'n briodol. Gall y plant gael at yr offer eu hunain drwy edrych ar y llun/darllen y gair ar y label a'u dychwelyd yn rhwydd pan fyddan nhw wedi gorffen.

Roedd y plant eisiau mynd â llyfrau allan gyda nhw i edrych arnyn nhw/eu darllen, ond nid oedd unrhyw le iddyn nhw eistedd felly rydyn ni wedi creu lle darllen tawel yn yr awyr agored drwy osod ychydig o ddelltwaith wedi'i addurno â phlanhigion a chynnwys mainc a rhai seddi wedi'u gwneud o foncyffion coed. Mae hyn yn boblogaidd iawn gyda'r plant.

Mae datblygu'r lle dysgu yn yr awyr agored yn parhau ac, ymhen amser, bydd llefydd eraill yn cael eu datblygu.

**Mae darnau o'r astudiaeth achos hon wedi cael eu cynnwys yn nogfen canllawiau APADGOS *Arsylwi ar Blant*.**



**Roedd y plant yn gyffrous iawn ac yn meddwl bod rhywun wedi gadael anrheg iddyn nhw.**

## Dydd a nos – Y sach sgleiniog

Mae'r adran sydd wedi'i chynnwys yma yn disgrifio sut y cafodd dosbarth o blant Blwyddyn 1 a 2, oedd newydd ei ffurfio, gyfle drwy weithgareddau chwarae pleserus ac anffurfiol, i ryngweithio â'i gilydd yn y gobaith y byddai'r dosbarth yn dechrau cydweithio'n dda.

Dechreuodd y gweithgaredd dan do. Roedd y sach eisoes wedi cael ei rhoi ar gadair yr athro pan ddaethon ni i mewn i gofrestru. Roedd y plant yn gyffrous iawn ac yn meddwl bod rhywun wedi gadael anrheg iddyn nhw. Chwaraeais i'r gêm, gan gymryd arna i nad oeddwn i'n gwybod beth oedd y tu mewn! Dechreuodd sgwrs yn syth am yr hyn roedden ni'n meddwl allai fod yn y sach. Allen ni ddyfalu trwy edrych ar y bag? Pa gliwiau oedden ni'n eu cael am gynnwys y sach? Roedd y plant yn gallu teimlo'r bag a cheisio dyfalu pa wrthrychau oedd y tu mewn iddo. Roedd y plant yn defnyddio amrywiaeth o eirfa i ddisgrifio arwyneb sgleiniog y bag, gan sylweddoli y gallen nhw weld eu hunain yn ei arwyneb. Roedd hyn yn ein hatgoffa o'n gwaith diweddar ar adlewyrchiadau, a rhoddodd gyfle i mi fel yr athro i asesu pwy allai gofio unrhyw eirfa wyddonol yn ymwneud ag adlewyrchiadau amgrwm a cheugrwm.

Ar ôl treulio ychydig o amser yn meddwl ac yn dyfalu, gofynnais i'r plant beth yr hoffen nhw ei wneud gyda'r bag. Roedd mwy nag un plentyn wedi gofyn a allen ni fynd â'r bag allan i'r awyr agored i'w agor. Yn ffodus roedd yn ddiwrnod heulog braf. Gosodais i ddarn mawr o bapur arian yn yr iard chwarae. Roedd pob un o'r plant wedi eistedd o'i amgylch a sylweddoli ar unwaith y gallen nhw weld eu hunain yn y papur. Roedd yr haul bron yn rhy lachar a gallen ni weld adlewyrchiadau o oleuni ar wynebau ein gilydd hefyd!

Gan fod y plant eisoes yn gyfarwydd â gweithgareddau amser cylch, roedden ni i gyd wedi cytuno i basio'r bag a rhoi cyfle i bob plentyn dynnu rhywbeth allan er mwyn i ni gyd ei ymchwilio. Yn y sach roedd gwahanol ffabrigau sgleiniog o amrywiol hyd, ffyn hud disglair, tiaras plastig, cytlas, car arian, brwsh gwallt sgleiniog, blwch sgleiniog yn cynnwys perlau arian, brediau arian, clychau arian a drych. Roedd rhai cardiau geiriau yn y bag hefyd: sgleiniog, disglair, disgleirio, tywynnu, pefrio, pefriog ac arian.

**Roedd y plant i gyd wedi cymryd eu tro i dynnu gwrthrych neu ryw ffabrig o'r bag ac roedden ni i gyd wedi ymchwilio pob eitem yn ei thro.**

Roedd y plant i gyd wedi cymryd eu tro i dynnu gwrthrych neu ryw ffabrig o'r bag ac roedden ni i gyd wedi ymchwilio pob eitem yn ei thro. Roedd sawl cwestiwn wedi dilyn. Allen ni weld ein hadlewyrchiadau ynddo? Oedd ein hadlewyrchiad wyneb i waered? Oedd ein hadlewyrchiad yn geugrwm? Oedd ein hadlewyrchiad yn sigledig? Allen ni weld trwyddo? (Roedd rhai o'r plant hŷn yn gallu defnyddio'r eirfa gywir.) Cafodd y rhan fwyaf o'r ffabrig ei roi dros eu pennau, eu lapio o gwmpas eu hysgwyddau, a'u chwifio yn yr awyr. Roedd y plant wedi gwisgo hetiau sgleiniog a thiaras. Cafodd ffyn hud eu chwifio. "Edrycha beth sy' 'da fi!" "Rwy' wedi ffeindio trysor!" Daeth y blwch arian yn gist drysor. "Rwy'n dywysoges!" "Rwy'n fôr-leidr!"

Ymhen hir a hwyr daethpwyd o hyd i'r cardiau geiriau ac roedden ni i gyd wedi rhoi cynnig ar ddarllen y geiriau a'u rhoi wrth ochr y gwrthrych yr oedd yn ei ddisgrifio. Roedd plant Blwyddyn 2 wedi arwain y rhan hon o'r gweithgaredd. Yna cafodd y plant gyfle i chwarae gyda'r eitemau o'u dewis.

Roedd Amber wedi gwisgo i fyny mewn clogyn disglair a cherdded yn falch o gwmpas yr iard chwarae. Dywedodd Ruby mewn llais crand iawn "Rydych chi'n edrych yn wych cariad!" Roedd sgwrs wedi dilyn rhwng y ddwy ferch ac yna fe aethon nhw o gwmpas pawb arall gan edmygu eu clogynnau yn yr un lleisiau crand. Mae Amber yn ferch dawel iawn a oedd yn newydd i'r ysgol ar y pryd. Roedd gwisgo tiara, clogyn arian a menig pinc disglair a dal ffon hud wedi ei hannog i ddatblygu personoliaeth ffug i guddio ei swildod, ac roedd hi wedi mwynhau ei hun yn y gweithgaredd llawn hwyl hwn.

Roeddwn i wedi gwneud yn siŵr fy mod i'n cynnwys eitemau a fyddai o ddiddordeb i'r bechgyn hefyd, fel cytlas a chleddyf, a hefyd darn o ffabrig a oedd yn dynwared ystlumod a gwe corryn. Dywedodd Joseph fod ei glogyn yn "disgleirio arno ti, mae'n hudol!" Yna roedd wedi esgus bod yn farchog gyda'r cleddyf, tra bo'r ddau fachgen arall yn ei swyno gyda'r ffyn hud. Ymatebodd Joseph gan ddweud "Mae'r clogyn hud 'ma yn stopio dy sbel. Rwy'n gwisgo arfwisg, rwy'n ddiogel!" Roedd hyn yn chwarae rôl llawn dychymyg. Roedd yr iaith a ddefnyddiodd y bechgyn i greu stori eithaf cymhleth yn wych. Roedd y bechgyn wedi parhau â'u gêm, a chael llawer o hwyl wrth iddyn nhw fynd o gwmpas yr iard chwarae yn bwrw hud ar ei gilydd.

Ar ddiwedd y diwrnod cytunodd yr holl staff fod cael mwy o le personol wedi helpu'r plant i ymchwilio'n rhydd.



# Cyfnodau datblygiadol mewn chwarae

**Bydd plant yn datblygu ar gyflymder gwahanol a bydd rhai yn symud trwy'r gwahanol gyfnodau yn gyflymach/ arafach na'i gilydd.**

Bydd angen i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant fod yn ymwybodol o ddilyniant a chyfnodau datblygu er mwyn iddyn nhw allu cynllunio profiadau a gweithgareddau priodol.

Bydd plant yn datblygu ar gyflymder gwahanol a bydd rhai yn symud trwy'r gwahanol gyfnodau yn gyflymach/arafach na'i gilydd. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r ffaith fod plant yn cyrraedd gwastadeddau dysgu, a byddan nhw'n symud yn ôl a blaen ar hyd y continwwm dysgu. Bydd llawer yn dibynnu ar brofiadau blaenorol y plant.

Wrth i blant ddysgu drwy archwilio ac ymchwilio o fewn eu hamgylchedd, byddan nhw'n caffael sgiliau a chysyniadau a fydd yn effeithio ar eu dysgu a'u dealltwriaeth yn y dyfodol. Y cyfnodau gwahanol o ddatblygiad chwarae yw:

| | |
|---|---|
| **ar eu pennau eu hunain** | plant yn chwarae ar eu pennau eu hunain; fawr ddim o ryngweithio â phlant eraill, ac yn aml yn ymgolli yn eu gweithgareddau eu hunain |
| **gwylio** | plant yn arsylwi ar eu cyfoedion; fel arfer yn gwylio heb ymuno â nhw |
| **paralel** | y plentyn yn chwarae ochr yn ochr â phlant eraill; i ddechrau, bydd yn ymddangos eu bod yn chwarae gyda'i gilydd, ond o edrych yn agosach bydd yn amlwg eu bod yn chwarae ar wahân |
| **partneriaeth/ cysylltiadol** | plant yn chwarae gyda'i gilydd; mae rhyngweithio rhwng plant yn datblygu, ac maen nhw'n mwynhau chwarae gyda'r un gweithgareddau a chyfarpar |
| **cydweithredol/ grŵp** | plant yn chwarae mewn grwpiau ac yn rhannu canlyniadau eu chwarae; yn aml bydd y chwarae yn gymhleth ac yn fanwl. |

Er y gall plant symud trwy'r cyfnodau hyn, byddan nhw weithiau'n dewis dychwelyd i gyfnod cynharach; er enghraifft, er y gall plant fod yn chwarae'n gydweithredol bydd yna adegau pan fydd angen iddyn nhw chwarae ar eu pennau eu hunain neu pan maen nhw wedi dewis gwneud hynny.

## Ar eu pennau eu hunain

**Sut i weld a ydy plant yn gweithredu yn y cyfnod chwarae hwn…**

Yn y cyfnod hwn o ddatblygu chwarae, bydd plant yn chwarae'n hapus ar eu pennau eu hunain. Byddan nhw'n ymgolli yn eu chwarae eu hunain, ac yn symud o weithgaredd i weithgaredd heb ystyried unrhyw blant eraill. Yn y cyfnod hwn, byddan nhw'n aml yn mwynhau dynwared gweithgareddau bob dydd megis bwydo'r ddol a'i rhoi yn y gwely, gyrru cerbyd neu olchi llestri.

**Mae'r astudiaeth achos hon yn disgrifio sut yr oedd Callum yn chwarae ar ei ben ei hun gydag amrywiaeth o deganau ac offer.**

### Chwarae gyda'r garej

Roedd Callum newydd ddechrau mewn lleoliad newydd. Un bore, pan gyrhaeddodd, dewisodd chwarae gyda'r fferm ac fe ddechreuodd ymwneud â'r anifeiliaid yn syth. Ar ôl chwarae am ychydig gadawodd Callum y gweithgaredd fferm ac aeth allan i chwarae. Penderfynodd gael reid yn y car pedlo. Ymhen ychydig sylwodd Callum ar y garej, y ceir, y lorïau a'r cerbydau eraill a dechreuodd chwarae gyda nhw. Trwy gydol y sesiynau hyn, er bod Callum yn chwarae ar ei ben ei hun heb fawr o ryngweithio â phlant eraill yn y grŵp, roedd yn cael hwyl.



## Gwylio


**Sut i weld a ydy plant yn gweithredu yn y cyfnod chwarae hwn…**

Y plant sy'n wylwyr chwarae yw'r rhai sy'n arsylwi ar eraill ond heb ymuno. Maen nhw'n hoffi gwylio plant eraill yn chwarae. Yn aml gellir eu gweld yn sefyll/eistedd ar ymylon y mannau lle mae'r plant eraill yn chwarae. Er y gall ymddangos eu bod yn unig neu'n ddihyder, yn aml gallan nhw fod yn canolbwyntio tra eu bod yn arsylwi ar y chwarae, er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r hyn sydd i'w wneud.

**Mae'r astudiaeth achos hon yn disgrifio sut yr oedd Thomas, sydd yn y dosbarth meithrin, wedi gwylio grŵp o blant eraill yn adeiladu injan dân o becynnau adeiladu masnachol.**

**Pan oedd y plant eraill wedi symud ymlaen at weithgareddau eraill dechreuodd Thomas chwarae gyda'r pecynnau adeiladu ei hun.**

### Adeiladu injan dân



Trwy gopïo'r dilyniant roedd wedi gweld y plant eraill yn ei ddefnyddio, adeiladodd Thomas ei injan dân ei hun. Yna benderfynodd fod angen pibelli dŵr ac aeth i chwilio yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored am ddefnyddiau addas. Roedd y rhain yn cynnwys glanhawyr pibell, gwellt, gwlân, llinyn, glaswellt hir a brigau. Penderfynodd Thomas ddefnyddio gwellt. Ychwanegodd ysgolion at yr injan dân ac roedd chwarae creadigol, brwdfrydig, estynedig wedi dilyn.

**Mae'r astudiaeth achos hon yn disgrifio sut yr oedd Soffia wedi gwylio grŵp o blant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd rhif a'i hymateb dilynol.**

## Stori rhif 10

Roedd Soffia newydd ymuno â Blwyddyn 2 o ysgol wahanol. Roedd hi'n amharod i ganolbwyntio ar unrhyw beth â phwrpas ac yn treulio ei hamser yn gwylio'r plant eraill.

Yn ei thrydedd wythnos, penderfynodd Soffia ymuno â grŵp o blant oedd yn rhoi 10 buwch mewn dau gae. "Sawl gwahanol ffordd allwch chi wneud hyn?" Roeddwn i wedi cynnig her.

Roedd y plant yn amlwg yn mwynhau gweld sawl ffordd wahanol y gallen nhw roi'r 10 buwch yn y ddau gae gwahanol. Awgrymodd Liam y dylen nhw roi un fuwch mewn un cae a'r holl wartheg eraill yn y cae arall. Cofiodd Bethan fod pump a phump yn gwneud 10 ac felly roedd hi eisiau rhoi pump buwch ym mhob cae. Yna awgrymodd Liam eu bod yn symud un fuwch ar y tro allan o un cae i'r cae arall. Penderfynodd Maya fod yn ysgrifennydd y grŵp a dechreuodd ysgrifennu'r gwahanol gyfuniadau yr oedden nhw eisoes wedi rhoi cynnig arnyn nhw.

Gwyliodd Soffia am funud cyn mynd i ôl darn o bapur ac ysgrifennu arno 'Stori rhif 10'.

## Paralel

**Sut i weld a ydy plant yn gweithredu yn y cyfnod chwarae hwn…**

Yn y cyfnod hwn gall ymddangos ar y dechrau fod plentyn yn chwarae gyda phlentyn arall. Mewn gwirionedd o edrych yn fanylach gwelir bod y plentyn yn chwarae ar ei ben ei hun ac nid yw'n rhyngweithio â'r plentyn arall. Mae chwarae paralel yn dilyn chwarae ar eu pennau eu hunain. Gall plant fod yn defnyddio'r un cyfarpar/ yn eistedd neu'n sefyll nesaf at ei gilydd, ond eto yn gweithio'n annibynnol ar ei gilydd; nid oes unrhyw ryngweithio cadarnhaol na negyddol rhyngddyn nhw yn eu chwarae.

**Mae'r astudiaeth achos hon yn disgrifio sut yr oedd dwy ferch, un yn y dosbarth derbyn a'r llall ym Mlwyddyn 1, wedi eistedd wrth ymyl ei gilydd, gan rannu adnoddau ond gweithio'n annibynnol, tra bo un yn gwneud cwch a'r llall yn gwneud gwely ar gyfer tedi bêr.**

### Y cwch a'r arth

Gosodwyd bwrdd gydag adnoddau amrywiol fel potiau iogwrt, clai modelu, papur, llinyn, pensiliau lliwio a blychau o wahanol faint ac esboniwyd i'r plant y gellid eu defnyddio ar gyfer beth bynnag yr hoffen nhw eu defnyddio.

Roedd Hannah yn arbennig o hoff o wneud pethau ac fe aeth at y bwrdd ar unwaith a dechrau gwneud cwch. Roedd Lara wedi ymuno â hi yn fuan a chasglodd ychydig o offer a dechrau creu gwely ar gyfer ei harth. Roedd y ddwy ferch wedi parhau â'u tasgau am beth amser.

Roedd Hannah wedi gwneud hwyl o bapur a gwelltyn ac wedi ceisio defnyddio gwahanol ddefnyddiau i glymu'r hwyl i'r cwch. Gwelodd y clai modelu a dewisodd glymu'r gwelltyn i'r cwch pot iogwrt gyda'r clai modelu. Yn y cyfamser, roedd Lara wedi gwneud y gwely i'w harth ac erbyn hyn roedd yn canolbwyntio ar glymu strap i'r gwely er mwyn iddi allu ei dynnu ar ei hôl. Ond y drafferth oedd ei fod yn llithro ymaith trwy'r amser. Ond roedd hi wedi dal ati i arbrofi a'i glymu mewn gwahanol ffyrdd. Yn y diwedd llwyddodd ac roedd hi'n gallu symud ei harth o gwmpas yr ystafell er mwyn cael hyd i le da iddo gysgu.

Y plant oedd wedi arwain pob un o'r gweithgareddau annibynnol hyn ac roedd pob plentyn wedi ymgolli'n llwyr ynddyn nhw.

## Partneriaeth/cysylltiadol

**Sut i weld a ydy plant yn gweithredu yn y cyfnod chwarae hwn…**

Bydd plant sy'n gweithio yn y cyfnod paralel yn dechrau dod yn ymwybodol o blant eraill. Byddan nhw'n aml yn dechrau cyfathrebu drwy siarad â'i gilydd neu drwy ddod yn ymwybodol o'u gemau/chwarae ei gilydd, a thrwy gyfathrebu â'i gilydd beth maen nhw'n ei wneud. Yn raddol bydd un plentyn yn dechrau ymwneud â chwarae'r llall. Gelwir hyn yn chwarae partneriaeth neu'n chwarae cysylltiadol.

### Lindysyn wedi'i wneud o deiars

Yn y llun mae plentyn dosbarth derbyn yn helpu plentyn dosbarth meithrin. Yn seiliedig ar y thema bwystfilod bach, roedd y plant wedi adeiladu lindysyn allan o deiars. Yna benderfynon nhw gerdded ar hyd y lindysyn ac roedd y plant hŷn wedi helpu'r plant iau. Hefyd, roedden nhw wedi cyfrif y teiars wrth iddyn nhw fynd ar hyd y lindysyn a defnyddio blociau lliw gwahanol fel ei goesau.



## Cydweithredol/grŵp

**Sut i weld a ydy plant yn gweithredu yn y cyfnod chwarae hwn…**

Yn y cyfnod hwn mae plant yn dechrau ‘chwarae’ gyda’i gilydd; maen nhw’n dechrau rhannu eu chwarae. Daw plant yn fwy cymdeithasol, a derbyn rolau yn eu chwarae ac ystyried rôl plant eraill. Maen nhw’n dechrau ddod yn ymwybodol o anghenion a dymuniadau eu cyfoedion ac yn raddol gall y chwarae ddod yn gymhleth. Weithiau byddan nhw’n dyfeisio rheolau a byddan nhw’n mynd yn ôl at y chwarae cydweithredol dros sawl diwrnod.

**Yn yr astudiaeth achos hon mae grŵp o bedwar bachgen yn nosbarth meithrin yn datblygu eu gêm eu hunain gan gynnwys cyfres o reolau, sy’n cael ei hesbonio i eraill wrth iddyn nhw ymuno â’r gêm.**

### Sfferau mewn bwced

Mae’r plant wedi cael sawl cyfle i drafod amrywiaeth o offer er mwyn datblygu sgiliau taflu, dal, taro a rholio ac wedi defnyddio peli, bagiau ffa, coetennau, ac ati, i anelu at darged er mwyn datblygu cydsymud.

Roedd John, Gareth, Isaac ac Omar yn chwarae yn y guddfan gyda phecyn adeiladu sy’n cynnwys sfferau. Roedd y bechgyn wedi arllwys y bwced o ddefnyddiau adeiladu ar y carped. Roedd John wedi codi un sffêr a’i daflu yn ôl i’r bwced. Roedd y sffêr wedi glanio yn y bwced ac roedd John wedi gweiddi hwrê. Yna, roedd Gareth, Isaac ac Omar wedi dilyn ei enghraifft a dechreuon nhw godi’r sfferau a’u hanelu at y bwced.

Aeth y gêm ymlaen am funud nes bod ychydig o anghytuno ynghylch pa mor agos yr oedden nhw’n cael sefyll wrth ymyl y bwced (a bod rhai ohonyn nhw’n sefyll yn agosach i’r bwced nag eraill). Dan arweiniad Isaac, cytunodd y grŵp i gael clustog yr un i eistedd arno ac roedden nhw wedi rhoi’r clustogau hyn mewn llinell tua dau fetr o’r bwced.

Yna roedden nhw wedi parhau â’r gêm, gan gasglu sfferau a’u hanelu at y bwced nes i Gareth gael ei fwrw gan sffêr. Dywedodd Isaac, arweinydd y grŵp, “Pawb i daflu’r sfferau gyda’i gilydd a stopio pan rwy’n dweud stop.” Cytunodd y grŵp ar hyn a phan ddywedodd Isaac “Nawr” roedden nhw i gyd wedi taflu eu sfferau, pan ddywedodd Isaac “Stop” roedden

**Aeth y gêm yn ei flaen gyda'r plant yn anelu'n fwyfwy cywir.**

nhw i gyd wedi casglu'r sfferau o'r bwced a'r llawr ac eistedd ar eu clustogau yn barod i ailddechrau.

Aeth y gêm yn ei flaen gyda'r plant yn anelu'n fwyfwy cywir. Pan adawodd John ac Omar y gêm roedd plant eraill wedi ymuno ac roedd Isaac wedi esbonio'r rheolau, "Rhaid i chi eistedd ar glustog a thaflu'ch sfferau pan rydyn ni'n taflu nhw. Pan rwy'n dweud 'Stop' rhaid i chi gasglu'r sfferau o'r llawr."

Roedd un plentyn newydd i'r grŵp wedi creu dadl arall drwy gasglu mwy na'i gyfran deg o sfferau gan adael ychydig yn unig ar gyfer y tri phlentyn arall. Trafodon nhw am rannu'r sfferau yn gyfartal rhyngddyn nhw ond doedden nhw ddim yn gallu cytuno ar strategaeth i wneud hyn yn gorfforol, ac felly roeddwn i wedi ymyrryd.

Siaradon ni am sut i rannu'n gyfartal ac roedd y grŵp wedi fy helpu i ddosbarthu'r sfferau, gan gymryd un sffêr ar y tro, yna ail un, trydydd un, pedwerydd un nes bod pedwar sffêr gan bob plentyn ac roedd dau sffêr ar ôl. Gofynnais i i'r plant, "Oes digon o sfferau ar ôl i chi gael un arall?" Yr ateb a gefais gan bawb oedd "Na". "Beth ddylen ni wneud gyda'r ddau sffêr 'te?" gofynnais. Dywedodd Gareth y dylen ni eu rhoi nhw heibio oherwydd, "dyw hi ddim yn deg os ydyn ni'n cael mwy o sfferau a dyn nhw ddim." Felly dyma ni'n penderfynu ar drydedd reol y gêm ac roedd pob plentyn wedi casglu pedwar sffêr bob tro yn barod i'w taflu yn y rownd nesaf. Roedd y gêm wedi parhau heb unrhyw ddadlau pellach a gyda brwdfrydedd amlwg.

Yn ogystal â datblygu cydsymud a sgiliau taflu (a meithrin ymwybyddiaeth o bellter a chywirdeb), roedd y plant hefyd yn gweithio gyda'i gilydd, yn chwarae'n gydweithredol, yn dangos ymwybyddiaeth o ddiogelwch ac yn datblygu dealltwriaeth o reolau a chwarae teg.



Yn yr astudiaeth achos hon mae grŵp o blant Blwyddyn 2 yn gweithio'n gydweithredol i sefydlu banc. Mae'r gweithgaredd dan arweiniad llwyr y plant ac mae'r chwarae rôl yn cynnwys enghraifft ddiddorol o gyfnewid rôl.

## Y banc

Roedd yr ysgol wedi derbyn offer chwarae rôl newydd. Roedd y staff wedi dadbacio'r offer yn gyflym a'u rhoi at ei gilydd cyn i'r plant gyrraedd.

Roedd grŵp o blant wedi sylwi ar y banc yn syth a'r panel rhifau tu allan. Roedden nhw wedi penderfynu'n annibynnol i wneud cardiau arian i'w defnyddio yn y banc.

Roedden nhw wedi casglu eu hadnoddau, symud y cadeiriau o gwmpas bwrdd a mynd ati i wneud eu cardiau arian. Gofynnwyd i bob oedolyn a ddaeth yn agos atyn nhw i ddangos eu cardiau arian ac edrychwyd yn fanwl arnyn nhw. Roedd y plant wedi ychwanegu llythrennau, rhifau a llofnodion blodeuog i'w cardiau arian.

Roedd un ferch wedi sylwi ar nifer o bocedi mewn rhai o byrsiau/waledi'r oedolion ac roedd hyn wedi'u hysgogi i wneud waledi i storio'r cardiau arian a'r (darnau) arian. Roedd gweithgarwch mawr wedi dilyn, gyda thâp gludiog, cerdyn a digon o dorri a chysylltu, ac ymhen ychydig roedd pob un o'r chwe phlentyn yn y grŵp wedi creu waledi gyda phocedi a nifer o gardiau arian gwahanol.

Gofynnodd Aleysha a allai'r cardiau arian fod yn sgleiniog "fel arwyddion athrawon" ac felly es i â nhw i gyd i ddefnyddio'r lamineiddiwr.

Ar ôl cinio, roedd y gêm wedi parhau ac erbyn hyn roedd Aleysha yn ariannwr y banc ac yn gweithio y tu ôl i'r sgrin tra bo'r gweddill yn ciwio i wasgu rhifau ar y bwrdd a gofyn am arian, gydag Aleysha yn dosbarthu'r darnau arian. Yna roedd y 'cwsmeriaid' yn dychwelyd i gefn y ciw i gael tro arall.

Roedd y chwarae hwn wedi cael ei ysgogi gan Dylan a'r grŵp. Roedd yr oedolion wedi helpu dim ond pan roedd y plant wedi gofyn i bob oedolyn a oedd yn cerdded heibio i ddangos eu cardiau arian. Roedd lefel y cymorth wedi amrywio'n fawr ond roedd y plant wedi deall y cysyniad o rif cyfrinachol a chael yr arian.

Ar ôl gwneud cerdyn arian yn gyflym ymunais i â'r ciw ac aros fy nhro. Pan oeddwn ar flaen y ciw gofynnwyd i mi roi fy rhif yn y peiriant a dywedodd, "Peidiwch â gadael i unrhyw un arall ei weld." Yna gofynnais am £50. Roedd Aleysha wedi rhedeg allan o ddarnau arian yn gyflym iawn. "Alla i gael papurau £5 os gwelwch yn dda?" gofynnais, gydag Aleysha yn edrych yn flin! Roedd arwydd 'ar gau' wedi ymddangos a gofynnwyd i mi ddod nôl nes ymlaen. Roedd Aleysha wedi dwyn ei ffrindiau ynghyd ac aethon nhw i chwilio am bapur a phennau. Roedden nhw wedi gwneud papurau £5 a £10.

Yn nes ymlaen ail-agorwyd y banc a chefais £50 wedi'i gyfrif yn ofalus mewn papurau £5 (llawer o foddhad i'r athro o ran datblygiad mathemategol mewn chwarae).

Roedd y grŵp wedi ymgolli'n llwyr yn eu chwarae rôl ac wedi gweithio a chwarae gyda'i gilydd am bedwar diwrnod yn addasu'r papur banc a'r drefn ar gyfer eu rolau. Cafodd nifer o reolau newydd eu hychwanegu a daeth yn gêm eithaf soffistigedig.



# Gwahanol fathau o leoedd a gweithgareddau chwarae/dysgu gweithredol

**Trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau llawn dychymyg, bydd plant yn cael cyfle i actio rolau a phrofiadau sy'n bwysig iddyn nhw.**

Mae sawl math gwahanol o weithgareddau chwarae a dysgu gweithredol y mae angen eu cynllunio o ran adnoddau, lle, amser a threfniadaeth gan ystyried y lleoliad/ysgol (dan do ac yn yr awyr agored). Dylai ymarferwyr sicrhau bod tasgau, problemau a gweithgareddau a osodir yn gyffrous, yn llawn her ac wedi'u gwahaniaethu ar gyfer y plant.

Mae'r canlynol yn rhai o'r meysydd a'r gweithgareddau y dylid eu cynnwys yng nghwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Er eu bod wedi'u rhestru dan benawdau gwahanol, yn aml ni ddefnyddir mathau o chwarae ar wahân i'w gilydd; er enghraifft, gall chwarae byd bach fod yn ddychmygol a gall gynnwys adeiladu.

## Dychmygol/smalio

Trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau llawn dychymyg, bydd plant yn cael cyfle i actio rolau a phrofiadau sy'n bwysig iddyn nhw. Pan fyddan nhw'n derbyn rôl, bydd plant yn ymgolli ynddi ac yn frwdfrydig ynglŷn â hi, megis dod yn aelod o deulu, rhywun o'r gymuned, neu hyd yn oed yn gymeriad ffantasi.

Bydd plant yn aml yn defnyddio gwahanol wrthrychau i gynrychioli rhywbeth arall, er enghraifft, blychau plastig neu gardbord mawr yn gerbydau neu giwbiau a blociau adeiladu plastig yn fwyd mewn caffi. Cyfeirir at ddefnyddio adnoddau yn y modd hwn fel chwarae symbolaidd.

Ymhlith rhai o'r sgiliau y gall plant eu datblygu, eu cymhwyso a'u hymarfer trwy fod yn rhan o weithgareddau chwarae dychmygol/smalio mae cyfleoedd i:

- gyfathrebu syniadau, teimladau ac emosiynau
- datblygu sgiliau cymdeithasol priodol
- datblygu hyder
- ymarfer geirfa a helaethu dysgu trwy geiriau newydd cysylltiedig
- ymarfer eu sgiliau darllen ac ysgrifennu
- datrys problemau a datblygu cysyniadau mathemategol
- datblygu sgiliau cydweithredol gyda'u cyfoedion
- datblygu eu sgiliau echddygol bras a'u sgiliau llawdrin manwl drwy symud a defnyddio cyfarpar.

Mae enghreifftiau o leoedd chwarae dychmygol yn cynnwys:

- tŷ bach twt
- caffi
- triniwr gwallt
- milfeddygfa/ysbyty anifeiliaid
- maes awyr/carped hud
- gwahanol siopau
- canolfan wersylla mewn coedwig
- coedwig law
- ogof ar lan y môr
- llong môr-ladron/llong ofod
- yn y nos/lle tywyll.

**Mae'r astudiaeth achos hon yn enghraifft o weithgaredd dan arweiniad plant sy'n cynnwys chwarae symbolaidd.**

## Lle lwyfan

Yn ogystal ag actio rolau a phrofiadau a oedd yn bwysig iddyn nhw, roedd y plant yn gallu cyfleu eu syniadau, eu teimladau a'u hemosiynau, ymarfer a datblygu sgiliau cydweithio â'u cyfoedion, a magu hyder.

Daeth y lle llwyfan i fodolaeth ar ôl i mi sylwi bod sawl plentyn yn y dosbarth derbyn yn gwisgo i fyny ac yn defnyddio tiwbiau cardfwrdd fel meicroffonau, ac yn trafod y rhaglen X Factor y buon nhw'n ei gwylio.

Cafodd y llwyfan ei pharatoi drwy ddefnyddio rhai paletau pren wedi'u peintio, llenni rhad, goleuadau tylwyth teg, ac amrywiaeth o 'offerynnau' a meicroffonau wedi'u gwneud. Hefyd, darparwyd dillad gwisgo i fyny lliwgar ac ati.

Roedd y plant wedi gwirioni ar hyn ac roedd yn galonogol iawn gwylio'r plant sydd fel arfer yn dawel iawn yn cael eu paratoi i 'berfformio' gyda llawer o hyder. Roedd y plant eraill wedi casglu cadeiriau yn ddigymell a'u rhoi mewn rhesi ar gyfer y gynulleidfa a dal cardiau gyda rhifau i 'feirniadu'r' perfformiad. Yn y diwedd roedd gennym ni ddwy gadair ar gyfer Sharon a Simon.

Roedd hwn yn weithgaredd gwych i fagu hyder i nifer o blant ac yn rhyfeddol ddigon nid oedd unrhyw ddadlau ynghylch ansawdd y perfformiadau.

**Mae'r astudiaeth achos hon yn disgrifio sut yr oedd cymryd tro ar feic wedi troi'n weithgaredd chwarae rôl ar raddfa fawr i grŵp Blwyddyn 2.**

## Y ddamwain ar y groesfan sebra

Y plant sydd biau'r adnoddau ac erbyn hyn maen nhw wedi cyrraedd y lefel hyder lle y gallan nhw ddefnyddio beth bynnag sydd ei angen arnyn nhw.

Roedd y beiciau yn rhuthro'n gyflym yn ôl ac ymlaen yn yr awyr agored gydag ychydig bach o rannu a chymryd tro.

Roedd Megan wedi sylwi bod ei ffrind Sadie yn cael ei gwthio i gefn y llinell a doedd hi ddim yn cael tro teg ar y beic. Roedd Megan wedi tynnu a gwthio blwch trwm o adnoddau diogelwch ffordd a'i agor yn yr iard chwarae. Roedd Sadie wedi ymuno â Megan a gyda'i gilydd roedden nhw wedi gosod y goleuadau croesi. Yna defnyddion nhw sialciau iard chwarae i wneud croesfannau sebra.

Aeth Megan a Sadie i'r neuadd a thwrio yn y blwch gwisgo i fyny. Roedd dwy 'ferch fonheddig' nawr yn croesi'r ffordd gan ddefnyddio'r groesfan sebra, "Mae'n rhaid i chi stopio oherwydd dyn ni'n croesi'r ffordd," ac felly daeth y merched yn rhan o'r gêm.

Pan ddychwelais i nes ymlaen roedd y gêm wedi datblygu i gynnwys grŵp mawr o blant yn dynwared damwain beic ar y groesfan sebra. Roedd amrywiaeth o eitemau priodol o'r sach chwarae rôl yn cael eu defnyddio, megis y ffôn symudol i ddeialu 999 i ofyn am yr heddlu. Roedd yr offer meddygol yn cael eu defnyddio gan y parafeddygon i drin y ddwy fenyw a gafodd eu hanafu yn y ddamwain a chawsant eu cludo i'r ysbyty (mewn ystafell ddosbarth arall, lle roedd rhai meinciau o'r iard chwarae wedi cael eu haildrefnu). Yn y cyfamser, roedd y gyrrwr wedi mynd i'r carchar ac roedd rhaid iddo lenwi ffurflenni di-ri (ysgrifennu cynnar).

## Byd bach

**Yn aml bydd plant yn ymgymryd â sawl rôl wrth actio gwahanol sefyllfaoedd a storïau.**

Mae gweithgareddau byd bach yn darparu cyfleoedd i blant actio storïau a sefyllfaoedd sy'n gyfarwydd ac yn anghyfarwydd iddyn nhw. Gall plant actio profiadau drwy ddefnyddio adnoddau byd bach yn ogystal â datblygu eu syniadau creadigol. Yn aml bydd plant yn ymgymryd â sawl rôl wrth actio gwahanol sefyllfaoedd a storïau.

Ymhlith rhai o'r sgiliau y gall plant eu datblygu, eu cymhwyso a'u hymarfer trwy fod yn rhan o weithgareddau chwarae byd bach mae cyfleoedd i:

- ddatrys problemau drwy feddwl am wahanol ddatrysiadau, megis llwybr gwahanol i deithio o amgylch damwain, i godi cyfaill o'r orsaf, neu'r ffordd gyflymaf i'r llong ofod gyrraedd y blaned nesaf
- cyfleu eu syniadau ac ailadrodd storïau a phrofiadau yn eu ffordd unigryw eu hunain
- datblygu sgiliau cydweithredol gyda'u cyfoedion
- datblygu a helaethu geirfa briodol, gan gynnwys geirfa sy'n ymwneud â safle
- datblygu eu dealltwriaeth o ymwybyddiaeth ofodol
- datblygu eu gwybodaeth am rolau sydd gan bobl yn eu cymuned, yn ogystal ag adeiladau penodol
- datblygu sgiliau llawdrin a chydsymud llaw–llygad.

Mae enghreifftiau o chwarae byd bach yn cynnwys gweithio gydag:

- amrywiaeth o fodelau bach, gan gynnwys dewis o aelodau teulu, rolau y bydd pobl yn ymgymryd â nhw yn y gymuned, megis meddygon, nyrsys, ffermwyr a chymeriadau ffantasi
- modelau o anifeiliaid, megis rhai mewn sŵ, jyngl, fferm neu anifeiliaid anwes
- ceir a cherbydau eraill, er enghraifft injan dân, trên a thractor
- gwahanol olygfeydd ar fatiau, megis tref, pentref, y gofod, garej
- modelau o adeiladau y mae'r plant eu hunain wedi'u gwneud a rhai a gynhyrchwyd yn fasnachol, megis tai, fferm, castell a gorsaf ofod
- blociau pren bach, tâp masgio a gwellt.

**Roedd grŵp bach o blant o'r dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn yn chwarae gyda rhai anifeiliaid fferm ar fat sy'n dangos cynllun o fferm.**

## Y gwartheg yn y cae

Yn eu gêm, roedd y plant yn ceisio rhoi'r nifer cywir o anifeiliaid ym mhob cae ar y mat, yn ôl y nifer a nodwyd yn y cae.

Pan ofynnais i iddyn nhw roi tair buwch mewn cae aredig dywedodd Sam, "Does dim bwyd ar gyfer y gwartheg yn y cae aredig, dylen nhw fod yn y cae gwyrdd. Ond mae'n iawn i roi'r moch yn y cae aredig oherwydd maen nhw'n hoffi mwd." Gallai pob un o'r plant oedd yn cymryd rhan ddeall y rhesymu a dechreuon nhw symud yr anifeiliaid eraill i lefydd mwy addas, ond roedden nhw'n dal i ystyried y nifer yn y cae.



Yn y gweithgaredd hwn roedd y plant yn gallu datblygu ac estyn geirfa briodol yn ymwneud â safle, a'u dealltwriaeth o ymwybyddiaeth ofodol. Yn ogystal, roedd Sam wedi cyfleu ei syniadau yn ei ffordd unigryw ei hun ac roedd y plant wedi datblygu eu sgiliau cydweithredu â'u cyfoedion.

## Adeiladu

**Dylai plant gael cyfle i weithio gyda gwahanol fathau o bren, offer a defnyddiau ailgylchadwy.**

Trwy gymryd rhan mewn chwarae adeiladu, bydd plant yn datblygu dealltwriaeth o ddefnyddiau a'u priodweddau. Dylai gweithgareddau gynnwys adeiladu â blociau, gan greu pethau yn ogystal â thynnu gwrthrychau'n ddarnau i ddarganfod sut yr adeiladwyd nhw. Dylai plant gael cyfle i weithio gyda gwahanol fathau o bren, offer a defnyddiau ailgylchadwy. Hefyd dylai'r gweithgareddau gynnwys plant yn dylunio ac yna'n gwneud eu creadigaethau eu hunain gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau.

Ymhlith rhai o'r sgiliau y gall plant eu datblygu, eu cymhwyso a'u hymarfer trwy fod yn rhan o weithgareddau chwarae adeiladu mae cyfleoedd i:

- ofalu am gyfarpar a dilyn gweithdrefnau diogelwch
- rhannu adnoddau a gweithio'n gydweithredol gydag eraill
- gwerthfawrogi eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill
- datblygu eu geirfa yn ogystal â chyfleu eu syniadau mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys TGCh
- datblygu eu sgiliau llawdrin a chydsymud llaw–llygad
- datblygu eu dealltwriaeth o arwynebedd ac ymwybyddiaeth ofodol
- ymchwilio i'r ffordd y bydd gwahanol wrthrychau'n gweithredu
- dysgu dewis, trafod a defnyddio offer yn briodol
- datblygu eu dealltwriaeth o briodweddau gwahanol ddefnyddiau
- datrys problemau ac awgrymu gwahanol ddatrysiadau.

Mae enghreifftiau o chwarae adeiladu yn cynnwys plant yn gweithio gyda:

- detholiad o flociau o wahanol feintiau a siapiau
- detholiad o ddeunyddiau ailgylchadwy
- gwahanol gyfryngau a detholiad o offer, gan gynnwys drychau a magnetau
- pecynnau adeiladu masnachol
- adnoddau mecanyddol, rhai sy'n gweithio a rhai sydd wedi torri
- detholiad o bren ac offer gwaith coed
- rhaglenni TGCh
- adnoddau byd bach i'w defnyddio gyda'u hadeiladau.

**Yn yr astudiaeth achos hon mae grŵp bach o blant yn dylunio ac yna'n gwneud eu creadigaeth eu hunain gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau.**

**Roedden nhw wedi datrys problemau fel sut i gael ffenestr i agor a sut i gael effaith cerrig neu fric ar gardbord.**

## Adeiladu castell

Roedd grŵp bach o blant Blwyddyn 2 yn ceisio adeiladu castell gan ddefnyddio un blwch hecsagonol mawr a chlawr mawr. Roedd pob plentyn wedi gweiddi allan eu syniadau ynghylch pa fath o gastell fyddai'n cael ei greu ac yn ceisio disgrifio ei nodweddion penodol. Roedd diddordeb mawr mewn adeiladu'r castell ac roedd pawb wedi cyfrannu a gwrando ar ei gilydd.

Penderfynodd y plant dynnu llun o'u syniadau a sut y dylai'r castell edrych cyn penderfynu sut i'w wneud. Roedden nhw wedi casglu darnau mawr o bapur a phennau blaen ffelt mawr i dynnu llun o'u fersiwn nhw o'r castell. Roedd y drafodaeth a ysgogwyd gan y gweithgaredd hwn yn amhrisiadwy. Roedd y plant wedi ymgolli'n llwyr yn y gweithgaredd felly roeddwn i fel athrawes yn gallu arsylwi a gwerthuso eu rhyngweithio yn hytrach na chychwyn neu gyfeirio'r gweithgaredd. Roedd y lluniau yn wahanol iawn. Roedd castell gyda draig ffyrnig ar noson dywyll, dymhestlog, ac i'r gwrthwyneb mewn un castell roedd parti priodas yn cael ei gynnal gyda llawer o falŵns, baneri a thân gwyllt.

Roedd yn mynd i fod yn anodd penderfynu pa gastell i'w wneud. Roeddwn i wedi ymyrryd ar yr adeg hon gan awgrymu y gallai pob plentyn addurno un panel o'r blwch yn y steil a ddefnyddiwyd yn eu llun o'r castell.

Roedden nhw wedi trafod pa fath o ddrws y dylid ei roi ar y castell. Roedden nhw wedi datrys problemau fel sut i gael ffenestr i agor a sut i gael effaith cerrig neu fric ar gardbord. Roedden nhw wedi defnyddio amrywiaeth o adnoddau, offer a thechnegau gan gynnwys paentiau, pastelau, defnyddiau jync, siswrn, tâp masgio, glud a llinyn i enwi rhai yn unig. Fel athrawes roeddwn i wedi cyfrannu at y prosiect dim ond pryd a phan roedden nhw wedi gofyn i mi wneud. Am y rhan fwyaf o'r amser roedden nhw'n gweithio'n gydweithredol, heb ofyn i mi ymyrryd neu heb fod angen i mi ymyrryd.

Roedd y castell gorffenedig yn wych. Roedd nifer o'r plant yn y dosbarth wedi chwarae gyda'r castell dros yr wythnosau dilynol ac mae'r blwch mawr nesaf eisoes yn barod!

## Chwarae â defnyddiau naturiol

**Ar y dechrau, mae profiadau â defnyddiau naturiol yn rhai cyffyrddol.**

Er nad yw hon yn faes chwarae penodol, mae'n hanfodol crybwyll pwysigrwydd darparu cyfleoedd i blant weithio â defnyddiau naturiol yn y Cyfnod Sylfaen. Tywod (sych a gwlyb), dŵr a chlai yw'r defnyddiau naturiol mwyaf cyffredin sydd ar gael i blant. Mae cregyn a chreigiau, yn ogystal â defnyddiau bwyd megis reis a phasta, a gweithio â phren ymhlith y dewisiadau eraill.

Ar y dechrau, mae profiadau â defnyddiau naturiol yn rhai cyffyrddol. Dylai plant gael cyfleoedd i deimlo, ymchwilio ac archwilio priodweddau'r defnyddiau hyn cyn mynd ati i wneud gweithgareddau mwy strwythuredig. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i blant allu defnyddio'r hyn maen nhw'n ei wybod i ddatrys problemau. Wrth i ddysgu a gwybodaeth y plant gynyddu, dylid gwahaniaethu gweithgareddau a sicrhau bod dilyniant iddyn nhw.



Ymhlith rhai o'r sgiliau y gall plant eu datblygu, eu cymhwyso a'u hymarfer trwy weithio â defnyddiau naturiol mae cyfleoedd i:

- ddatblygu sgiliau llawdrin
- profi a thrafod amrywiaeth o offer a chyfarpar; er enghraifft, defnyddio morthwylion a llifau yn wybodus
- datblygu dealltwriaeth o briodweddau defnyddiau naturiol a sut maen nhw'n newid; er enghraifft, pan fydd dŵr neu wres yn cael ei ychwanegu atyn nhw
- datblygu eu geirfa ddisgrifiadol, ynghyd â'r derminoleg gywir ar gyfer y defnyddiau a'r offer maen nhw'n eu trafod
- dewis defnyddiau ac offer ar gyfer gweithgaredd
- datblygu gwybodaeth o'r gwahanol amgylcheddau sydd yn y byd
- datblygu cysyniadau mathemategol o siâp, gofod, cyfaint a chynhwysedd
- siarad am eu gwaith a'i drafod.

Mae enghreifftiau o weithgareddau sy'n cynnwys defnyddiau naturiol yn cynnwys:

- defnyddio detholiad o boteli, jygiau a chynwysyddion plastig i'w llenwi a'u gwacáu
- defnyddio detholiad o adnoddau megis bwcedi, rhawiau, llwyau, potiau, a gograu i ymchwilio i briodweddau'r defnyddiau
- defnyddio ffyn, cribiniau, ac ati i greu'r effeithiau maen nhw'n dymuno eu creu
- defnyddio adnoddau byd bach i actio storïau a syniadau; er enghraifft, byd tanddwr neu greu pentref yn yr hambwrdd tywod
- defnyddiau ar gyfer addurno, megis cregyn, gro, botymau a phasta
- rholbrenni, torwyr, sisyrnau ac offer cegin eraill ar gyfer llawdrin a gweithio â thoes a chlai
- defnyddio gwahanol fathau o bren ac offer i greu eu modelau eu hunain, ac ati.

**Iechyd a diogelwch:** mae'n bosibl y bydd gan rai plant alergedd a all gael ei ysgogi wrth drafod y defnyddiau.

**Mae'r astudiaeth achos hon yn disgrifio sut yr oedd Charlie wedi gwneud model o macaw yn eistedd mewn coeden mewn coedwig law yn dilyn trafodaeth yn nosbarth meithrin am adar y byd.**

## Y macaw yn y goedwig law

Aeth Charlie at y bwrdd adnoddau lle daeth o hyd i does lliw, plu, ffyn lolipop, brigau o wahanol faint, gleiniau, reis a glanhawyr pibell. Ymhen ychydig funudau ymunais i ag ef; roedd e wedi gwasgu ei belen o does lliw a'i wneud yn llyfn ac wedi defnyddio'r holl ffyn lolipop a'u rhoi i sefyll i fyny yn y toes.

Esboniodd Charlie, "Mae'n goedwig law. Mae llawer o goed mewn coedwig law. Mae angen mwy o goed arna i." Gofynnais i a oedd unrhyw beth arall yn y dysglau y gallai ei ddefnyddio fel coed. Atebodd Charlie, "Maen nhw i gyd yn plygu gormod," gan bwyntio at y glanhawyr pibell, "Dyw coed ddim yn plygu, maen nhw'n sownd yn y tir."

Yna gofynnodd Charlie a allai ddefnyddio'r pensiliau ar y bwrdd wrth ei ymyl i wneud mwy o goed. Pan oedd digon o goed yn y goedwig law, cododd bluen a defnyddiodd ddarn o does lliw i'w chysylltu â ffon lolipop, a dywedodd "Y macaw

yw hwn, mae'n eistedd ar y goeden yn chwilio am ei ginio. Beth mae e'n hoffi bwyta?"

Gofynnais i i Charlie sut y gallen ni gael gwybod beth mae'r macaw yn hoffi bwyta. Casglodd y llyfrau roedden ni wedi'u defnyddio yn y cyflwyniad a darllenais i'r darn perthnasol iddo.

Penderfynodd Charlie wneud mwydyn. Cododd lanhawr pibell pinc a'i wasgu yn y toes chwarae ar waelod y ffyn lolipop. "A chwilen, un brown. Ych â fi. Dwi ddim yn bwyta chwilod." Cododd Charlie lanhawr pibell brown, ei wneud yn belen fach a defnyddiodd ddarn o does lliw arall i'w gysylltu â'r ffon lolipop. "Mae'n cropian i fyny'r goeden a bydd yn cael ei bigo o'r goeden."

Yna cododd Charlie ddau lond llaw o reis o'r ddysgl a gwasgaru'r reis yn araf dros y goedwig gan weiddi, "Mae'n bwrw glaw. Lot o law." Yna treulion ni'r pum munud nesaf yn casglu'r reis er mwyn iddi fwrw glaw eto.

Ar wahân i'r pleser pur a gafodd Charlie yn ystod y gweithgaredd, roedd hefyd wedi datblygu sgiliau llawdrin, modelu ac arsylwi. Mynegodd ei syniadau trwy siarad am ei waith a'i drafod, a thrwy ddefnyddio defnyddiau creadigol roedd wedi'u cyfleu mewn ffordd ddyfeisgar. Llwyddodd i wneud hyn trwy archwilio, meddwl, datrys problemau a chyfathrebu.



## Creadigol

**Dylai ymatebion creadigol plant adlewyrchu eu hunigolrwydd, eu dewisiadau a'u syniadau.**

Mae chwarae creadigol yn ymwneud â datblygu ffyrdd unigol plant o gynrychioli eu syniadau, eu teimladau a'u hemosiynau yn ddychmygus trwy wahanol ffurfiau ar hunanfynegiant. Mae'r rhain yn cynnwys tynnu lluniau, peintio, gwneud marciau, gwneud modelau, symud, chwarae rôl, cerddoriaeth, barddoniaeth, dawns, drama ac ysgrifennu.

Dylid meithrin creadigrwydd plant mewn amgylchedd cyfoethog dan do ac yn yr awyr agored sy'n ysgogi meddwl llawn dychymyg ac yn cynnig cyfleoedd cyffrous i arbrofi â phrofiadau ac adnoddau newydd. Dylai ymatebion creadigol plant adlewyrchu eu hunigolrwydd, eu dewisiadau a'u syniadau.

Wrth i blant ymgymryd â gweithgareddau chwarae creadigol sy'n caniatáu iddyn nhw drafod defnyddiau newydd, gwneud lluniau a modelau, chwarae rolau gwahanol, creu seiniau, cerddoriaeth a symudiadau, naill ai ar eu pennau eu hunain neu mewn grwpiau bychain, bydd y sgiliau canlynol yn datblygu:

- llawdrin
- arsylwi
- modelu
- archwilio
- arbrofi
- ymchwilio
- gwrando
- ymateb
- trafod
- meddwl
- myfyrio
- datrys problemau
- dyfalbarhau
- cyfathrebu
- cydweithredu
- canolbwyntio
- gwerthuso (eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill).

Mae'r astudiaeth achos hon yn disgrifio sut yr oedd archwilio sain yn yr awyr agored wedi rhoi'r rhyddid a'r lle i'r plant ymchwilio mewn ffordd na fyddai wedi bod yn bosibl dan do.







## Cerddoriaeth yn yr awyr agored

Dechreuodd y gweithgaredd hwn gyda'r plant yn archwilio offerynnau taro dan do. Mewn grwpiau o tua 10 treulion nhw beth amser yn archwilio ac yn arbrofi gyda'r offerynnau. Yna dewisodd y plant eu hoff offeryn a 'chyfansoddi' ychydig o gerddoriaeth gyda'u grŵp. Cafodd ei recordio ar dâp er mwyn gallu ei chwarae yn ôl a'i gwerthuso.

Wedyn cafodd y plant gyfle i archwilio sain yn yr awyr agored. Roedden nhw eisoes wedi gweld sut mae reis yn neidio i fyny ac i lawr ar groen drwm a sut mae seindonnau yn teithio trwy ddŵr. Nawr bod y plant yn archwilio sain yn yr awyr agored roedden nhw'n gallu teimlo seindonnau yn y gwrthrychau roedden nhw'n eu bwrw. Hefyd roedd yn golygu y gallen nhw wneud cymaint o sŵn ag y maen nhw'n dymuno.

Roedd y plant wedi darganfod bod pob defnydd yn creu sain wahanol. Gallai'r plant deimlo'r dirgryniadau yn y gwrthrychau. Roedd aer mewn rhai o'r gwrthrychau felly roedden nhw'n gweithredu fel drwm.

"Rwy'n gallu clywed y sŵn yn teithio i fyny'r bibell."
"Rwy'n mwynhau gwneud set o ddrymiau!"



Roedd y plant yn meddwl ei bod hi'n wych gwneud cymaint o sŵn ag y gallen nhw. Roedd rhai plant yn gwneud sŵn tawel yn yr awyr agored hefyd.

Pan oedden nhw yn ôl dan do cafodd y plant eu hannog i wneud eu hofferynnau cerdd eu hunain gyda defnyddiau jync. Mae'r 'offerynnau' yn hongian o hyd yn y lle awyr agored ac yn cael eu defnyddio pryd bynnag y mae'r plant yn defnyddio'r lle awyr agored.

Mae arweiniad manylach i'w gael yn nogfen canllawiau APADGOS ar Ddatblygiad Creadigol.

## Corfforol

**Wrth i'r plant ddod yn fwy medrus yn trafod gwrthrychau bach bydd angen gweithgareddau mwy heriol arnyn nhw.**

Mae chwarae corfforol yn ymwneud â datblygu rheolaeth plant ar eu cyrff ac ar gydsymud symudiadau mawr, sgiliau llawdrin manwl, ymwybyddiaeth ofodol a chydbwysedd. Mae'n ymwneud hefyd â gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o ddull iach o fyw y mae lles corfforol yn dibynnu arno.

Mae angen gofod priodol ar gyfer symudiadau corfforol, boed dan do neu yn yr awyr agored, er mwyn i'r plant allu defnyddio'u cyrff yn weithredol i gael ymwybyddiaeth ofodol ac i arbrofi â symud heb gyfyngiadau. Mae angen i blant allu defnyddio cyfarpar mawr a bach (ar gyfer datblygu sgiliau echddygol bras a sgiliau llawdrin manwl) y gallan nhw eu tynnu allan a'u rhoi i gadw eu hunain, i'w defnyddio ar eu pennau eu hunain neu gydag ymarferwr.

Mae rheolaeth plant ar eu sgiliau echddygol bras a chydsymud y rhain yn datblygu trwy symudiadau lle mae angen defnyddio cyhyrau yn y corff, y coesau a'r breichiau. Wrth iddyn nhw ddatblygu, bydd y mwyafrif o blant yn caffael y sgiliau canlynol:



- cerdded
- rhedeg
- stopio
- neidio
- dringo
- gwthio a thynnu teganau ar olwynion
- pedlo beic
- rholio pêl
- taflu/dal bag ffa/pêl
- cydbwyso.

Mae sgil wrth lawdrin amrywiaeth o ddefnyddiau hydrin a chyfarpar bach yn dibynnu ar ddatblygiad cyhyrau bach. Mae angen rheolaeth echddygol fanwl, er enghraifft, i adeiladu tŵr o flociau, cwblhau pos jig-so neu glymu careiau esgidiau. Wrth i'r plant ddod yn fwy medrus yn trafod gwrthrychau bach bydd angen gweithgareddau mwy heriol arnyn nhw.

Mae sgiliau corfforol yn gysylltiedig hefyd â datblygiad canfyddiadol, sgiliau gweledol, sgiliau gwybyddol a dealltwriaeth o eirfa benodol sy'n ymwneud â pherthnasoedd gofodol. Caiff y rhain eu gwella trwy amgylchedd sy'n weledol ysgogol a chyfleoedd i archwilio a siarad am amrywiaeth eang o adnoddau a defnyddiau.

Mae arweiniad manylach i'w gael yn nogfen canllawiau APADGOS ar Ddatblygiad Corfforol.

## Siapiau lliw



Yn y llun fe welwch dri phlentyn yn magu eu hunanhyder, cydbwysedd a chwarae creadigol pan gafodd siapiau lliw eu symud i'r lle awyr agored.

Roedd y plant wedi dyfeisio gêm, gan neidio o un siâp i'r llall. Roedd y ffaith eu bod yn chwarae gyda'i gilydd ac nid wrth ochr ei gilydd yn syndod mawr a hefyd y ffaith nad oedd unrhyw un yn sylweddoli pa mor uchel y gallai'r plant neidio.

Roedd y gêm yn ymdrin â nifer o feysydd cwricwlwm, megis mathemateg, sgiliau personol a chymdeithasol, iaith, cyfathrebu a sgiliau corfforol.



# Rôl yr ymarferwr yn chwarae'r plant

**Mae angen trefnu'r amgylchedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored i ddarparu amrywiaeth eang o brofiadau chwarae gwahaniaethol bob dydd.**

Mae angen i ymarferwyr addysgol ddeall pwysigrwydd chwarae yn natblygiad y plentyn, a chynllunio cwricwlwm priodol. Mae angen i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant ifanc annog, cymell a datblygu agweddau cadarnhaol.

Mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o bryd y mae'n briodol ymyrryd yn sensitif i estyn dysgu'r plant, herio'u sgiliau datrys problemau a'u sgiliau meddwl, a phryd i ganiatáu i'r plant gyrraedd diweddglo boddhaol ar eu pennau eu hunain.

Mae'n bwysig hefyd i ymarferwyr gefnogi/cynnal dysgu'r plant pan fyddan nhw'n cael anhawster â gweithgaredd neu pan na fyddan nhw'n llwyddo heb ymyrraeth ymarferwr. Unwaith y bydd y plant wedi llwyddo yn y gweithgaredd, gall yr ymarferwr dynnu ei gefnogaeth yn ôl.

Mae angen i ymarferwyr gynllunio ar gyfer y gwahanol weithgareddau chwarae/dysgu gweithredol i blant. Mae angen iddyn nhw hefyd ystyried pa rôl y bydd ymarferwyr yn ei chwarae yn y gweithgareddau hyn, yn ogystal â pha sgiliau holi a rhyngweithio fydd yn digwydd. Mae angen trefnu'r amgylchedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored i ddarparu amrywiaeth eang o brofiadau chwarae gwahaniaethol bob dydd.

Mae angen i ymarferwyr gynllunio amser i arsylwi, monitro ac asesu plant ynghyd â gwerthuso'r gweithgareddau chwarae strwythuredig.

# Trefnu'r amgylchedd dysgu

Mae angen i ymarferwyr gynllunio'r amgylchedd dysgu yn ofalus iawn i sicrhau bod y plant yn cael amrywiaeth o weithgareddau chwarae/dysgu gweithredol sy'n caniatáu iddyn nhw fod yn ddigymell, yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau gosod strwythuredig. Dylai'r amgylchedd dysgu fod yn groesawgar, yn ysgogol, yn hyblyg ac yn gyfoethog o ran iaith a dylid ei ddefnyddio fel adnodd grymus i gymell dysgwyr.

Dylid ei wella trwy gynnig arddangosfeydd rhyngweithiol o waith y plant lle bo hynny'n bosibl. Dylai arddangosfeydd a'r amgylchedd dysgu newid lle bo'n briodol. Dylid trefnu amrywiaeth o weithgareddau chwarae gwahaniaethol dan do ac yn yr awyr agored. Dylai fod gan y plant berchenogaeth ar y chwarae a dylen nhw deimlo'n hyderus, gan symud yn rhwydd o'r amgylchedd dysgu dan do i'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored.

**Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut mae un ysgol yn galluogi plant i symud yn rhydd rhwng yr amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored tra eu bod yn cyfyngu ar y niferoedd sydd yn yr awyr agored yr un pryd.**

## Ffyn chwarae

Mae ein gweledigaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys defnyddio'r amgylchedd fel adnodd ar gyfer dysgu a datblygu'r saith Maes Dysgu. Teimlwn ei fod yn bwysig yn y dosbarth meithrin i'r plant allu symud rhwng yr amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored gyda rhywfaint o ryddid. Fodd bynnag, mae cyfyngu ar y niferoedd sy'n mynd allan yn hollbwysig am resymau diogelwch. Yr ateb? Ffyn chwarae.

Pan fydd plentyn yn mynd allan maen nhw'n mynd â ffon chwarae gyda nhw o'r fâs a leolir ger drws yr ystafell ddosbarth, a byddan nhw ei gadael yn y pot planhigion y tu allan tra eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr awyr agored. Ar ôl gorffen, mae'r plentyn yn dod i mewn ac yn dychwelyd y ffon chwarae i'r fâs. Felly, os oes ffon chwarae yn y fâs gall y plentyn ei chymryd a mynd allan; os nad oes ffon chwarae yn y fâs mae'n rhaid i'r plentyn aros i mewn nes bod ffon ar gael. Caiff plant eu monitro gan staff a'u hannog i symud i mewn ac allan os oes angen er mwyn iddyn nhw gael cydbwysedd o weithgareddau a sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i fynd allan i'r awyr agored.

Bydd plant yn dilyn y broses hon ar eu pennau eu hunain a gyda hyder. Mae'r gweithgaredd hwn yn annog y plentyn i gael mwy o reolaeth dros eu dysgu a mwy o gyfrifoldeb am y dewisiadau maen nhw'n eu gwneud, yn ogystal â phrofi cymryd tro, meddwl am eraill a chydweithio.



Er mwyn cefnogi datblygiad plant, dylai'r amgylchedd dysgu:

- fod yn gyfoethog o ran deunydd argraffedig Cymraeg a/neu Saesneg lle bo'n briodol
- darparu amrywiaeth o gyfleoedd heriol
- gwerthfawrogi a dathlu cyfraniad pawb
- cynnig cyfleoedd ar gyfer:
  – bod yn annibynnol
  – siarad, trafod a chyfathrebu
  – gwrando
  – aros eu tro
  – bod yn llonydd ac yn ddistaw
  – bod yn llawn hwyl ac egni
  – darllen
  – gwneud marciau ac ysgrifennu
  – archwilio
  – ymchwilio
  – rhagfynegi
  – bod yn ddychmygus ac yn greadigol
  – arsylwi
  – defnyddio TGCh.

Dylai adnoddau ddarparu ar gyfer cyfle cyfartal a diwallu anghenion unigolion. Dylai adnoddau a gweithgareddau fod yn briodol i'r cyfnod datblygu, gan alluogi cyfnerthu'r hyn maen nhw eisoes wedi'i ddysgu, a chaffael sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth newydd trwy ymholi ac ymchwilio.

Dylid defnyddio a dethol ystod ac amrywiaeth o adnoddau i gefnogi dysgu'r plant dan do ac yn yr awyr agored. Dylai'r ffordd y trefnir yr adnoddau sicrhau bod yna amrywiaeth eang o gyfleoedd i blant ddewis a dethol adnoddau a'u dychwelyd ar ôl eu defnyddio, ac ymwneud â phrofiadau sydd o ddiddordeb iddyn nhw.

Gall ymwelwyr o'r cymunedau lleol, o wahanol ddiwylliannau ac o feysydd sydd o ddiddordeb arbennig i'r plant, fod yn adnodd defnyddiol ar gyfer yr amgylchedd dysgu. Gall yr ymweliadau hyn ddarparu profiadau uniongyrchol i'r plant a darparu gweithgareddau delfrydol o ran siarad a gwrando a chwarae rôl/chwarae dychmygus. Gallant estyn gwybodaeth a dealltwriaeth plant, er enghraifft, o wahanol rolau y mae pobl yn eu chwarae yn y gymuned a thraddodiadau pwysig gwahanol ddiwylliannau.

Dylid cynllunio’n ofalus y lle sydd ar gael i gynnwys:

- profiadau dysgu dan do ac yn yr awyr agored
- cyfleoedd ar gyfer gweithio yn unigol ac mewn grwpiau bach
- dysgu annibynnol
- sesiynau grŵp gydag ymarferwr.

Dylid darparu arwynebau digonol ar gyfer:

- storio gwaith ar y gweill
- arddangos gwaith
- gosod arddangosfeydd rhyngweithiol.



# Cynllunio chwarae yn y Cyfnod Sylfaen

**Ni ddylai chwarae strwythuredig fod yn set anhyblyg o reolau sy'n cael eu gorfodi ar blant.**

Wrth gynllunio chwarae, mae'n bwysig ystyried y gwahanol ffyrdd y bydd plant yn chwarae ac yn dysgu. Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen, dylai fod cyfleoedd i'r plant ddysgu trwy:

- archwilio
- defnyddio'u synhwyrau i ddeall a dysgu am eu hamgylchedd/byd
- gweithgareddau sy'n caniatáu iddyn nhw archwilio'u hemosiynau a'u teimladau
- profiadau sy'n caniatáu i blant ddarganfod pethau drostyn nhw eu hunain.

Ochr yn ochr â'r gweithgareddau hyn, dylid cynnig profiadau strwythuredig sydd â chanlyniadau penodol wedi'u cynllunio i estyn dysgu a datblygiad y plant.

Ni ddylai chwarae strwythuredig fod yn set anhyblyg o reolau sy'n cael eu gorfodi ar blant. Dylai gael ei gynllunio i ganiatáu i blant gael cyfleoedd i ddewis ac estyn y gweithgaredd yn unol â'u diddordebau a'u gwybodaeth.

Os yw'r chwarae wedi'i strwythuro/gyfyngu yn y fath fodd fel na chaiff plant unrhyw gyfle i ddewis defnyddiau, cyfeillion, nac i ddatblygu eu syniadau eu hunain, byddan nhw'n rhoi'r gorau i chwarae.

Wrth gynllunio gweithgareddau chwarae, dylai ymarferwyr ystyried y canlynol:

- anghenion y plant
- y saith Maes Dysgu a'r berthynas rhyngddyn nhw
- y lleoliad/yr ysgol
- y grŵp/dosbarth
- y plant a'u mewnbwn i'r broses gynllunio
- yr amgylcheddau dysgu – dan do ac yn yr awyr agored
- y gymuned leol.

**Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut yr oedd y plant wedi cymryd rhan mewn cynllunio gweithgaredd, sut yr oedd wedi datblygu, a sut yr oedd ymweliad â chastell lleol wedi troi'r chwarae yn realiti.**

## Cestyll, marchogion a thywysogesau

Yn ein cylch chwarae rydyn ni'n ceisio cynnwys plant yn y broses gynllunio a gweithredu trwy ganolbwyntio ar brofiadau sy'n berthnasol iddyn nhw a'r rhai y maen nhw efallai wedi'u cael eisoes, er enghraifft, Swyddfa Bost, siop anifeiliaid anwes a bwyty. Lle'n bosibl, byddwn yn mynd â'r plant i'r lle go iawn naill ai cyn neu rywbryd yn ystod y gweithgaredd er mwyn iddyn nhw allu cymharu eu fersiwn nhw â'r peth go iawn. Beth sydd ar goll? Sut gallen ni gael hynny? Beth allen ni ei ddefnyddio? Rydym yn gwneud rhestr o'u hawgrymiadau a cheisiadau ac yn gweithio allan gyda nhw sut y gellir gweithredu'r rhain.

Roedd diddordeb mawr gan y plant mewn cestyll, marchogion a thywysogesau. Roedd y diddordeb hwn wedi datblygu o'r gemau roedden nhw'n eu chwarae a'r llyfrau y buom yn edrych arnyn nhw ac, felly, roedden ni wedi gwneud ein castell ein hunain o flwch cardbord mawr wedi'i addurno gyda briciau paent sbwng, blodau a glaswellt. Penderfynodd y plant y dylai fod yn gastell Cymreig ac felly roedd baner Cymru ar ein polyn a dwy ddraig ar y bylchfuriau i'w gwarchod. Ar ôl ei orffen roedd y plant wedi chwarae gyda'r castell am weddill y dydd.

Y diwrnod canlynol fe ofynnon ni i'r plant beth arall y gallen ni ei roi yn y castell. Roedden nhw wedi awgrymu llyn, hwyaid ar y llyn, pont dros y dŵr, gorsedd, dillad marchogion a thywysogesau a cheffylau. Aethom ati i gael hyd i'r defnyddiau yr oedd eu hangen arnom. Cafodd ceffylau eu gwneud o flychau cardbord, defnyddiwyd y platfform o'r sleid ar gyfer y bont, roedd y llyn yn ddarn o hen darpolin a daethpwyd o hyd i'r dillad yn y blwch gwisgo i fyny. Roedd y plant wedi tynnu llun o hwyaid a'u torri nhw allan ac roedden ni wedi'u lamineiddio er mwyn i'r plant eu gosod ar y dŵr. Ar ôl chwarae am ychydig penderfynodd y plant fod angen coronau arnyn nhw, felly roedden nhw wedi gwneud rhai o gerdyn a thlysau. Fe wnaethon nhw orsedd trwy ychwanegu cefn uchel a breichiau (wedi'u gwneud o gerdyn) at gadair o'r feithrinfa.

**Yn ystod yr ymweliad â'r castell roeddwn i wedi prynu cwils ac roedd y plant yn awyddus i'w defnyddio i ysgrifennu ar eu sgroliau.**

Cafodd y plant gymaint o hwyl yn chwarae gyda'r castell felly penderfynon ni fynd â nhw i ymweld â chastell lleol ar gyfer helfa drysor. Roedden ni wedi disgwyl y byddai'r helfa yn para tua 30 munud ond roedd y plant wedi ymgolli'n llwyr yn yr helfa a buon ni yno am ddwy awr. Doedd neb eisiau gadael pan oedd hi'n amser mynd a dywedodd pawb y bydden nhw'n dod yn ôl gyda'u rhieni.

Daeth y castell (yng nghornel chwarae rôl) yn fyw y diwrnod canlynol, a'r diwrnodau wedi hynny. Roedd y plant eisiau ailberfformio eu helfa drysor. Rhyngom daethpwyd o hyd i'r propiau a oedd eu hangen yn y lleoliad, a'u rhoi mewn bag ac aeth y plant ati i ail-fyw'r profiad darn wrth ddarn, gan gywiro ei gilydd os oedden nhw wedi cael y drefn yn anghywir, a rhannu'r gwrthrychau er mwyn iddyn nhw i gyd allu eu cario.

Yn nes ymlaen yn y dydd, fe wnaethon ni ychydig o sgroliau. Yn ystod yr ymweliad â'r castell roeddwn i wedi prynu cwils ac roedd y plant yn awyddus i'w defnyddio i ysgrifennu ar eu sgroliau. Pan oedden nhw wedi gorffen eu lluniau/ysgrifennu clymwyd pob sgrôl â rhuban coch ac fe wnaethon ni seliau o does coch.

Roedd y plant wedi chwarae gyda'r castell am sawl diwrnod. Teimlwn eu bod nhw'n chwarae'n well gydag eitemau y maen nhw wedi'u gwneud eu hunain a'r rheswm am hyn yw eu bod yn teimlo mai nhw sydd biau'r eitemau, nid ni.



# Cynllunio ar gyfer dilyniant

Gan fod plant yn symud ar hyd y continwwm dysgu ar gyflymder gwahanol, mae'n bwysig arsylwi ar sgiliau'r plant, ystyried anghenion unigolion a'r ystod o sgiliau wrth gynllunio gweithgareddau.

Bydd profiadau dysgu perthnasol sy'n annog plant i gymryd rhan yn eu galluogi i wneud cynnydd cyson sy'n briodol i'w cyfnod datblygu. Bydd cael plant i ymwneud â chynllunio a phenderfynu yn gwella'u profiadau dysgu.

Gellir cefnogi dilyniant yn sgiliau'r plant drwy gynnig cyfleoedd ar gyfer:

- chwarae
- arbrofi
- siarad/cyfathrebu/trafod
- rhagfynegi/amcangyfrif
- datrys problemau
- ymarfer a chyfnerthu
- adolygu
- cymhwyso
- gwerthuso.

## Cynllunio ar gyfer cynnwys chwarae corfforol yn y thema wythnosol 'Pethau byw'

Ein thema ar gyfer hanner tymor yw 'Archwiliadau Timmy a Tilly'. Mae'r siart canlynol yn dangos sut rydym wedi cynllunio ar gyfer cynnwys chwarae corfforol o fewn y thema wythnosol 'Pethau byw'. Mae hefyd yn dangos sut y cynlluniwyd y gweithgaredd dilynol sef creu bwystfil bach.

**Maes Dysgu: Datblygiad Corfforol**

| Amcan dysgu | Geirfa | Gweithgareddau dysgu ac addysgu | Asesiad |
|---|---|---|---|
| Dechrau datblygu ymwybyddiaeth o sut mae eu cyrff yn symud<br><br>Symud mewn ymateb i ysgogiadau | Araf<br>Cyflym<br>Isel<br>Uchel<br>Symud<br>Bwystfil bach<br>Cripian<br>Neidio<br>Corryn<br>Mwydyn<br>Cleren | **Gweithgaredd dewis rhydd â chymorth – pob grŵp**<br><br>Beth mae Timmy a Tilly yn ei archwilio'r wythnos hon?<br><br>Gyda pha fath o sain mae'r gair 'symud' yn dechrau?<br><br>Dangoswch luniau o fwystfilod bach i'r plant a gofynnwch iddyn nhw sut maen nhw'n meddwl eu bod yn symud.<br><br>Rhowch gymorth i'r plant trwy ofyn a allan nhw symud fel bwystfil bach.<br><br>Sut byddech chi'n teimlo pe byddech chi'n bryfyn yn yr Eco-ardd gyda llawer o le i symud? | All y plant drafod sut mae bwystfilod bach yn symud?<br><br>Oedd y plant yn deall sut mae bwystfilod bach yn symud? |
| Creu bwystfil bach o glai | Clai<br>Bwystfil bach<br>Coesau<br>Adenydd<br>Rholio<br>Mowld bach | **Pob grŵp**<br><br>Beth mae Timmy a Tilly yn ei archwilio'r wythnos hon?<br><br>Gyda pha fath o sain mae'r gair 'clai' yn dechrau?<br><br>Pa fwystfil bach hoffech chi ei wneud?<br><br>Allwch chi greu bwystfil bach o glai?<br><br>Sut mae'ch bwystfil bach chi yn edrych?<br><br>Sawl coes/adain sydd ei angen arnoch ar gyfer eich bwystfil bach? | Allai'r plant greu bwystfil bach clai? |

## Cynllunio ar gyfer Datblygiad Corfforol

Mae un ysgol yn cynllunio'n wythnosol, ar gyfer pob Maes Dysgu. Maen nhw'n nodi'r sgil(iau) i'w datblygu a gweithgareddau a fydd yn galluogi'r plant i ddatblygu. Mae'r siart canlynol yn dangos sut roedden nhw wedi cynllunio ar gyfer Datblygiad Corfforol yn nosbarth meithrin yn ystod wythnos yn nhymor y gwanwyn.

| Maes Dysgu | Sgil | Gweithgareddau |
|---|---|---|
| Datblygiad Corfforol | Datblygu sgiliau echddygol manwl trwy ddefnyddio ystod o offer mewn gweithgareddau wedi'u cynllunio. | Gwneud pypedau gan ddefnyddio amrywiaeth o offer gwneud marciau, siswrn, tâp gludiog a ffyn lolipop.<br><br>'Ysgrifennu' enwau llyfrau a'u henwau eu hunain ar gyfer llyfr grŵp 'hoff stori'. |
| | Datblygu a chael ymwybyddiaeth o le, uchder a phellter ac annog chwarae cydweithredol. | Adeiladu a defnyddio pontydd ar gyfer chwarae rôl – tasg â ffocws 'Tri Bwch Gafr'. |
| | Bod yn ymwybodol o beryglon posibl a dysgu sut i drafod cyfarpar yn ddiogel. | Lle adeiladu – briciau plastig, blychau cardbord, beic a threlar, trelar tynnu, ac ati.<br><br>Codi, cario a defnyddio offer awyr agored yn ddiogel. |



# Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol

Adroddiad *Starting with Quality* (HMSO, 1997) ISBN: 9780112707219

*A Corner to Learn* gan N Griffiths (Nelson Thornes Ltd, 1998) ISBN: 9780748730872

*Developing Outdoor Play* (fideo) ar gael o Early Years Development and Childcare Service, Buckinghamshire County Council, The Friary, Rickfords Hill, Aylesbury, Buckinghamshire HP20 2RT

*Experiencing Reggio Emilia* golygwyd gan L Abbott a C Nutbrown (Open University Press, 2007) ISBN: 9780335207039

*I Cento Linguaggi dei Bambini/The Hundred Languages of Children* catalog yr arddangosfa (Reggio Children, 1996) ISBN: 8887960089 (Reggio Children S.r.l., Via Guido da Castello, 12, Via Bligny, 1, 42100 Reggio Emilia, Italia)

*Meeting the Early Learning Goals through Role Play* gan M Aldridge (David Fulton Publishers Ltd, 2003) ISBN: 9781843120360

*Planning for Play and Learning in Early Years Settings* o Gymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru, 27 Clive Place, Penarth CF64 1AW

*Planning Play and the Early Years* gan P Tassoni a K Hucker (Heinemann Educational Publishers, 2005) ISBN: 9780435401191

*Play* (Ail Argraffiad) gan C Garvey (Fontana Press, 1991) ISBN: 9780006862246

*Play in the Primary Curriculum* golygwyd gan N Hall a L Abbott (Hodder & Stoughton, 1994) ISBN: 9780340538050

*Play – The Key to Young Children's Learning* (BAECE) ISBN: 0904187160 o'r British Association for Early Childhood Education (BAECE), 136 Cavell Street, Llundain, E1 2JA

*Role Play* gan J Harries (Step Forward Publishing Ltd, 2003) ISBN: 9781902438957

*Spontaneous Play in Early Childhood from Birth to Six Years* gan M D Sheridan (Routledge, 1993) ISBN: 041509884X

*Structuring Play in the Early Years at School* gan K Manning ac A Sharp (Ward Lock Educational mewn cysylltiad â Drake Educational Associates, 1977) ISBN: 9780706236026

*The Excellence of Play* (Ail Argraffiad) golygwyd gan J R Moyles (Open University Press, 2007) ISBN: 9780335217571

*The Little Book of Role Play* gan S Featherstone (Featherstone Education Ltd, 2001) ISBN: 9781902233628

# Geirfa'r Cyfnod Sylfaen

**Amrywiaeth ddiwylliannol**
Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, yn dathlu gwahanol ddiwylliannau ac yn helpu plant i adnabod a chael ymwybyddiaeth gadarnhaol o'u diwylliant nhw eu hunain a diwylliant pobl eraill. Dylid datblygu agweddau cadarnhaol er mwyn cynnig modd i blant fod yn fwy ymwybodol o werth yr amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli yng Nghymru, a'u gwerthfawrogi.

**Annibyniaeth**
Mae annibyniaeth yn cyfeirio at gael y gallu a'r sgil i fod yn llai dibynnol ar eraill. Dylai sgiliau rheoli ac ymdopi gael eu datblygu'n raddol trwy'r Cyfnod Sylfaen.

**Asesu statudol**
O fewn y Cyfnod Sylfaen mae dau asesiad statudol y mae'n rhaid eu cyflawni: asesu sylfaenol ac asesiad statudol athrawon diwedd cyfnod.

**Cof**
Y cof yw rhan o'r ymennydd lle mae gwybodaeth yn cael ei chasglu, ei chadw a'i hadalw yn ddiweddarach. I gychwyn rhaid cymryd gwybodaeth a'i deall; yna caiff ei chadw a'i hadalw pan fydd ei hangen. Mae angen pob un o'r prosesau hyn er mwyn i ddysgu ddigwydd.

**Cwricwlwm**
Mae saith Maes Dysgu wedi cael eu nodi i ddisgrifio cwricwlwm priodol ar gyfer plant 3 i 7 oed sy'n cefnogi datblygiad plant a'u sgiliau. Maen nhw'n ategu ei gilydd ac yn cydweithio i ddarparu cwricwlwm sy'n gyfannol. Mae'r cynnwys (sgiliau ac ystod) addysg statudol y mae angen ei dilyn i'w gweld ym mhob Maes Dysgu.

**Cwricwlwm cyfannol**
Mae'r cwricwlwm cyfannol yn gwricwlwm lle mae Meysydd Dysgu wedi'u cydgysylltu ac mae dysgu ac addysgu yn cynnal sawl agwedd ar ddatblygiad y plentyn yn hytrach na chanolbwyntio ar un cyfnod neu angen penodol. Mae'r cwricwlwm yn cael ei ystyried a'i gyflwyno fel un cwricwlwm.

**Cwricwlwm Cymreig**
Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy ddatblygu dealltwriaeth plant o'r hunaniaeth ddiwylliannol sy'n unigryw i Gymru ar draws pob Maes Dysgu trwy ymagwedd integredig. Dylai plant werthfawrogi'r gwahanol ieithoedd, delweddau, gwrthrychau, seiniau a blasau sy'n rhan annatod o Gymru heddiw, a chael syniad o berthyn i Gymru, a deall treftadaeth, llenyddiaeth a chelfyddydau Cymru yn ogystal â'r iaith.

**Cyfathrebu/datblygu iaith**
Mae iaith yn gyfuniad o wahanol ffurfiau a sgiliau sy'n cynnwys siarad a gwrando, darllen, ysgrifennu, meddwl ac arsylwi. Mae tôn y llais yn ffurf bwerus o gyfleu ystyr. Gall rhai plant ddefnyddio systemau eraill heblaw'r llais megis arwyddo.

Mae gwahanol fathau o gyfathrebu di-eiriau hefyd, megis mynegiant yr wyneb (gwenu), ystumiau/symudiadau'r corff (ysgwyddau yn gwargrymu a chysylltiad â'r llygad).

**Chwarae addysgol strwythuredig**
Mae deilliannau wedi'u cynllunio'n benodol yn deillio o brofiadau chwarae strwythuredig i estyn dysgu, sgiliau a datblygiad plant. Dylai chwarae strwythuredig gael ei gynllunio mewn ffordd hyblyg er mwyn caniatáu i blant gael cyfleoedd i ddewis ac ehangu'r gweithgaredd yn ôl eu diddordebau a'u gwybodaeth.

**Chwarae ar eu pennau eu hunain**
Mae plant yn chwarae'n hapus ar eu pennau eu hunain. Byddan nhw'n ymwneud â'u chwarae eu hunain ac yn symud o weithgaredd i weithgaredd heb ystyried unrhyw blant eraill. Yn aml yn y cyfnod chwarae hwn bydd plant yn mwynhau efelychu gweithgareddau bob dydd.

**Chwarae cydweithredol/grŵp**
Pan fydd plant yn dechrau chwarae gyda'i gilydd, byddan nhw'n rhannu eu chwarae. Daw plant yn fwy cymdeithasol, byddan nhw'n derbyn rolau yn y chwarae ac yn ystyried rolau plant eraill. Maen nhw'n dechrau dod yn ymwybodol o anghenion a dymuniadau eu cyfoedion, a felly yn raddol bydd y chwarae yn dod yn fwy cymhleth. Weithiau byddan nhw'n dyfeisio rheolau, a byddan nhw'n mynd yn ôl at y chwarae cydweithredol dros sawl diwrnod.

**Chwarae paralel**
Gall ymddangos fod plant yn chwarae gyda'i gilydd ond trwy arsylwi'n fwy manwl gwelir bod y plant yn chwarae ar eu pennau eu hunain ac nid yn rhyngweithio â'i gilydd. Gall plant fod yn defnyddio'r un cyfarpar neu'n eistedd neu'n sefyll nesaf at ei gilydd, ond eto yn gweithio'n annibynnol ar ei gilydd; nid oes unrhyw ryngweithio cadarnhaol na negyddol rhyngddyn nhw yn eu chwarae.

**Dan arweiniad ymarferwr/oedolyn**
Mae angen i ymarferwyr gynllunio cwricwlwm priodol sy'n cadw diddordeb plant yn eu dysgu. Mae angen iddyn nhw annog, cymell a datblygu agweddau. Mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o bryd y mae'n briodol i ymyrryd yn sensitif i estyn dysgu'r plant, herio'u sgiliau datrys problemau a'u sgiliau meddwl, a phryd i ganiatáu i'r plant gyrraedd diweddglo boddhaol ar eu pennau eu hunain. Dylai ymarferwyr gefnogi/cynnal dysgu'r plant, trwy arsylwi, monitro ac asesu dilyniant plant er mwyn sicrhau eu bod yn symud ymlaen i gyfnodau nesaf eu datblygiad a bod eu sgiliau yn cael eu hestyn.

**Datblygiad corfforol**
Mae datblygiad corfforol yn canolbwyntio ar gynyddu sgiliau a pherfformiad y corff. Mae cysylltiad agos rhwng datblygiad corfforol a gwybyddol, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cynnar. Gellir rhannu datblygiad corfforol yn sgiliau echddygol bras a sgiliau llawdrin manwl.

**Datblygiad cymdeithasol**
Mae datblygiad cymdeithasol yn canolbwyntio ar ryngweithiadau cymdeithasol plant a'u perthynas â'u cyfoedion, ymarferwyr ac oedolion.

**Datblygiad gwybyddol**
Ystyr datblygiad gwybyddol yw datblygu'r meddwl. Mae'n canolbwyntio ar feddwl a dealltwriaeth, dychymyg a chreadigrwydd y plentyn (gan gynnwys datrys problemau/rhesymu/canolbwyntio a chof).

**Datblygiad personol**
Mae datblygiad personol yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth plant o'u hunain a datblygu eu sgiliau hunangymorth.

**Datrys problemau**
Mae datrys problemau yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gallu i asesu problem/sefyllfa yna casglu gwybodaeth a chael hyd i ateb. Pan fydd sgiliau'r plant yn cynyddu byddan nhw'n gallu tynnu ar brofiadau blaenorol wrth roi cynnig ar weithgareddau newydd a datrys problemau.

**Deilliannau**
Mae Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys graddfeydd a disgrifiadau asesu sylfaenol a disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Cawsant eu datblygu i ategu asesiad statudol athrawon diwedd cyfnod. Mae chwe Deilliant gan bob Maes Dysgu ac at ddibenion gwybodaeth mae Deilliannau 4–6 yn croesgyfeirio'n fras i'r disgrifiadau cyfredol am Lefelau 1–3.

**Dulliau dysgu**
Mae gwahanol ddulliau dysgu neu ddulliau rhyngweithio o ddewis. Y dulliau dysgu yw: gweledol, clybodol a chinesthetig. Pan fydd dulliau dysgu yn cael eu hystyried gellir gwella dysgu. Bydd rhai plant yn dysgu orau os oes ysgogiad gweledol ganddynt, ond bydd eraill yn dysgu orau trwy ysgogiad clybodol neu dasg ginesthetig (ymarferol). Mae ymchwil i ddatblygiad yr ymennydd wedi dangos bod dulliau dysgu unigol yn cael eu heffeithio gan yr amgylchedd, y math o weithgaredd dysgu a gweithio'n annibynnol neu mewn grŵp.

**Dychymyg**
Ystyr dychymyg yw cael y sgiliau a'r gallu i ffurfio delweddau, syniadau a chysyniadau sydd naill ai'n bodoli ond nid ydyn nhw'n bresennol neu nad ydyn nhw'n bodoli o gwbl.

**Dysgu gweithredol**
Mae'r term hwn yn cyfeirio at blant yn dysgu'n weithredol ac yn cael rhan yn eu dysgu. Mae plant yn dysgu orau trwy brofiadau uniongyrchol. Mae'n hanfodol bod plant yn cael profiadau gweithredol dan do ac yn yr awyr agored sy'n meithrin eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac a fydd yn cynnal eu dysgu yn y dyfodol.

Pwrpas chwarae/dysgu gweithredol yw ei fod yn cymell, yn ysgogi ac yn cynnal plant wrth iddyn nhw ddatblygu sgiliau, cysyniadau, caffael iaith/sgiliau cyfathrebu a chanolbwyntio. Hefyd, mae'n rhoi cyfle i blant ddatblygu agweddau cadarnhaol a dangos ymwybyddiaeth/defnydd o ddysgu diweddar, sgiliau a chymwyseddau, ac mae'n cyfnerthu dysgu.

**Dysgu yn yr awyr agored**
Mae pwyslais cryf ar ddysgu yn yr awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored fod yn estyniad i'r amgylchedd dan do. Dylid cynllunio gweithgareddau strwythuredig yn seiliedig ar brofiad ar gyfer y diwrnod cyfan a chyn belled ag y bo modd, dylai plant gael symud yn rhwydd rhwng y tu mewn a'r tu allan (gan gadw mewn cof faterion iechyd a diogelwch).

**Fframwaith sgiliau**
Mae'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer plant 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol yn disgrifio dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, rhif a thechnoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

**Gwahaniaethu**
Dylai'r cwricwlwm fod yn hyblyg er mwyn cyfateb â galluoedd, sgiliau ac anghenion datblygiadol plant.

**Gwylio chwarae**
Bydd plant yn arsylwi ar blant eraill ond nid ydynt yn ymuno. Byddan nhw'n hoffi gwylio plant eraill yn chwarae. Yn aml gellir eu gweld yn sefyll/eistedd ar ymylon y mannau lle mae'r plant eraill yn chwarae. Er y gall ymddangos eu bod yn unig neu'n ddihyder, yn aml gallan nhw fod yn canolbwyntio tra eu bod yn arsylwi ar y chwarae er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r hyn sydd i'w wneud.

**Hunan-barch**
Mae hyn yn cyfeirio at y ffordd y mae plant yn teimlo amdanyn nhw eu hunain. Mae teimladau cadarnhaol yn dynodi hunan-barch uchel a theimladau negyddol yn dynodi hunan-barch isel.

**Lles emosiynol**
Mae datblygiad emosiynol yn canolbwyntio ar ddatblygu hunan-barch plant, eu teimladau a'u hymwybyddiaeth o deimladau eraill.

**Partneriaeth/chwarae cysylltiadol**
Bydd plant sy'n gweithio yn y cyfnod partneriaeth/chwarae cysylltiadol yn dechrau dod yn ymwybodol o blant eraill. Byddan nhw'n dechrau cyfathrebu â'i gilydd ac yn fwy ymwybodol o'r chwarae/gemau y mae'r plant eraill yn cymryd rhan ynddyn nhw. Maen nhw'n dechrau esbonio i'w gilydd beth maen nhw'n ei wneud. Yn raddol bydd un plentyn yn dechrau ymwneud â chwarae'r llall.

**Pedagogeg**
Mae pedagogeg yn cyfeirio at y berthynas rhwng dysgu ac addysgu. Mae'n cynnwys y cysyniad o'r ymarferwr fel hwyluswr dysgu, gan ymateb i anghenion unigolion, parodrwydd i ddysgu ochr yn ochr â'r plant, defnyddio dulliau priodol i reoli'r broses ddysgu a myfyrio'n barhaus ar arfer a'i gwella.

**Proffil asesu**
Mae'r proffil asesu yn cynnig arweiniad ar gyfnodau datblygu allweddol plant a'r sgiliau y gall plant eu datblygu a'u caffael o tua 18 mis i 84 mis.

**Sgiliau echddygol bras**
Mae datblygiad sgiliau echddygol bras yn dechrau gyda'r baban ifanc yn rheoli symudiadau'r pen ac yna'n, symud i lawr y corff, rheoli rhannau eraill o'r corff. Mae datblygiad echddygol bras yn cynnwys defnyddio symudiadau'r corff cyfan, cydsymud a chydbwysedd.

**Sgiliau llawdrin manwl**
Mae datblygu sgiliau llawdrin manwl/echddygol plant yn dechrau yng nghanol eu cyrff ac yn symud allan. Trwy ddatblygiad priodol, bydd plant yn gallu cyflawni symudiadau manwl a chymhleth. Mae sgiliau llawdrin manwl yn cynnwys defnyddio symudiadau'r bysedd a chydsymud llaw–llygad.

**Wedi'u cychwyn gan blant/canolbwyntio ar blant**
Dylai cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ganolbwyntio mwy ar ddiddordebau, datblygiad a dysgu plant yn hytrach na'r cwricwlwm a deilliannau rhagderfynedig. Mae'n bwysig nodi bod rhaid i'r cwricwlwm a gynlluniwyd gael strwythur ac amcanion dysgu clir ond bod yn ddigon hyblyg i alluogi plant i ddilyn eu diddordebau a diwallu eu hanghenion.

Dylai arsylwi'n ofalus ar y cwricwlwm a gynlluniwyd a sut mae'r plant yn ymateb iddo ddarparu tystiolaeth i ddangos a yw'r plant yn canolbwyntio ar eu dysgu ac nid yn chwarae'n ddibwrpas. Mae dealltwriaeth o ddatblygiad y plentyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu hestyn yn eu dysgu.

**Ymarferwyr**
Mae'r term generig hwn yn cyfeirio at yr oedolion sy'n gweithio gyda phlant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'n cynnwys athrawon a chynorthwywyr ystafell ddosbarth yn y sector a gynhelir, a staff sy'n gweithio yn y lleoliadau addysg a ariennir yn y sector nas cynhelir.

# Cydnabyddiaethau

Hoffai Is-adran Cwricwlwm ac Asesu 3–14 yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r holl blant, ymarferwyr, rhieni, gofalwyr, lleoliadau, ysgolion a sefydliadau eraill sydd wedi helpu i gynhyrchu'r ddogfen hon, gan gynnwys:

Cylch Meithrin y Bontfaen, Y Bontfaen, Bro Morgannwg

Old School Lane Playgroup, Llandudno, Conwy

Village Playgroup, Pen-y-bont ar Ogwr

Ysgol y Gogarth, Llandudno, Conwy

Ysgol Gynradd Holton, Y Barri, Bro Morgannwg

Ysgol Gynradd Kitchener, Caerdydd

Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref, Pontypridd, RCT

Ysgol Gynradd Pontllanffraith, Caerffili

Ysgol Rhiw Bechan, Y Drenewydd, Powys.